



Adolygiad o fudiad yr undebau credyd yng Nghymru

Cynhyrchwyd yr adroddiad gan

Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd

ar ran

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Hydref 2009

Gwireddu'r Potensial: Adolygiad o fudiad yr undebau credyd yng Nghymru

Mae copïau pellach o'r crynodeb gweithredol a'r adroddiad ar gael oddi wrth:

Siân Jones, Ffôn: 01685 729126

E-bost: SJ&LGResearch&Informationunit@wales.gsi.gov.uk

Gwireddu'r Potensial: Adolygiad o fudiad yr undebau credyd yng Nghymru

Adroddiad yw hwn ar ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fudiad yr undebau credyd yng Nghymru. Amcanion yr ymchwil oedd ymchwilio i

broffil, gweithrediad, gweinyddiad, strwythurau cymorth, gwasanaethau a pherfformiad presennol, a datblygiad a chynladwyedd yn y dyfodol undebau credyd yng Nghymru.

Ymgwymerwyd â'r ymchwiliad yn 2009 gan ymchwiliadwyr yn Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd:

Dr. Molly Scott Cato
Richard Bickle
Alex Bird, a mewnbwn oddi wrth
Dr. Jan Myers

Mewn cydweithrediad â:
Paul A Jones, Uned Ymchwiliad Cynhwysiad Ariannol, Prifysgol John Moores Lerpwl

Cydnabyddiaeth

Mae diolch arbennig i:
Lorraine Hennessey, ABCU Ltd (Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyf) am ei chymorth yn nadansoddiad PEARLS yr enillion ariannol.

Hoffem gydnabod a rhoi diolch i aelodau, staff a chyfarwyddwyr yr undebau credyd a phawb a gymerodd ran mewn cyfweiliadau a grwpiau ffocws am eu mewnbwn gwerthfawr i'r broses hon.

Diolch hefyd i Lywodraeth y Cynulliad.

ISBN: 978 0 7504 5367 3

© Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hydref 2009

Cynnwys

Tudalen

Rhagair	5
Rhagarweiniad	6
1. Cymru mewn cyd-destun DU a rhyngwladol	8
1.1 Cymhwyso'r profiad rhyngwladol i gyd-destun Cymreig	12
2. Mesur perfformiad ariannol a gweithredol	19
2.1 Y pethau mae dadansoddiad PEARLS yn dweud wrthym am undebau credyd yng Nghymru	20
Diogelu	21
Strwythur ariannol effeithiol	21
Ansawdd yr asedau	23
Cyfraddau enillion a chostau	24
Hylifedd	26
Yr aelodaeth yn tyfu	27
Crynodeb o'r data	28
3. Ffactorau llwyddiant a heriau o ran cyflawni cynladwyedd a thwf	31
3.1 Tyndra o ran diffinio rôl a chynladwyedd ariannol	31
3.2 Gwasanaethu Cymunedau Tlotaf Cymru	33
3.3 Dilema moderneiddio	36
3.4 Rheoli perfformiad	38
3.5 Meithrin gallu'r undebau credyd	37
3.6 Gweithio mewn partneriaeth	40
3.7 Codi'r proffil	41
4. Casgliadau ac Argymhellion	42
4.1 Argymhellion ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad	45
4.2 Argymhellion ar gyfer yr undebau credyd yng Nghymru	48
4.3 Argymhellion ar gyfer sefydliadau masnach a chefnogi'r undebau credyd	49
4.4 Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol Cymru	50
4.5 Argymhellion ar gyfer cymdeithasau tai a sefydliadau partner eraill	50

Ffigurau, Blychau a Thablau

Ffig i.1 Map clymau cyffredin 'byw a gweithio' ar gyfer Undebau Credyd Cymru, 2009	7
Ffig 1.1 Ymdreiddiad yr undebau credyd i'r farchnad 2005-2008	9
Ffig 1.3 Dosbarthiad yr aelodau (oedolion) ar draws yr undebau credyd yng Nghymru	14
Ffig 1.4 Twf yn nifer yr aelodau mewn undebau credyd yng Nghymru, 2002-2009	14
Ffig 1.5 Ymdreiddiad i'r cwlwm cyffredin (oedolion)	15
Ffig 1.6 Asedau'r aelodau	16
Ffig 1.7 Benthyciadau yn ganran o'r asedau: Cymru, Lloegr a'r Alban, 2002-2006	16
Ffig 2.1 Cymhareb benthyciadau yn erbyn asedau	22
Ffig 2.2 Benthyciadau tramgwyddus mewn 22 undeb credyd	24
Ffig 2.3 Sut y mae'r incwm grantiau'n gwrthbwysu costau gweithredu uchel yr undebau credyd yng Nghymru	25
Ffig 2.4 Asedau hylifol / Cyfanswm yr adneuon	26
Ffig 2.5 Twf aelodaeth yr undebau credyd mewn canrannau, 2004/5 a 2006/7	27
Ffig 2.6 Canran blynyddol twf asedau'r undebau credyd	28
Ffig 2.7 Proffil PEARLS ar gyfer undeb credyd sampl	29

Blwch 1.1 Elfennau cyffredin datblygu undebau credyd yn llwyddiannus o brofiad yn y DU ac yn rhyngwladol	12
Blwch 1.2 Dyraniad y Gronfa Twf yng Nghymru	13
Blwch 2.1 Dangosyddion PEARLS allweddol o berfformiad undebau credyd Cymru 2005 a 2007	28
Blwch 3.1 Amrywiolion allweddol sy'n effeithio ar gryfder ariannol ac ymdreiddiad i'r farchnad	35

Tabl 2.1 10 Cymhareb PEARLS allweddol	20
---------------------------------------	----

Proffiliau'r Undebau Credyd

Undeb Credyd Llandudno a'r Cylch	18
Undeb Credyd SaveEasy – Undeb Credyd Llanelli a'r Cylch	18
Undebau Credyd Cyflogaion-seiliedig yng Nghymru	30
Undeb Credyd y Llechen Cyfyngedig (Caernarfon ac Ynys Môn)	32
Undeb Credyd Dragonsavers	35
Undeb Credyd Robert Owen Sir Drefaldwyn (ROMCUL)	37
Undeb Credyd Casnewydd	38
Undeb Credyd Bargoed ac Aberbargoed	40

Rhagair

Yn 2009, gellir ystyried bod mudiad yr undebau credyd yng Nghymru yn sefyll ar groesffordd. Mewn 20 mlynedd, fe'i trawsffurfiwyd o fod yn gasgliad o egin sefydliadau yn y gymuned i sefyllfa lle y mae undebau credyd yn ymestyn ar draws y wlad gyfan, a llawer ohonynt yn ymdrechu i gael datblygu'n gydweithfeydd ariannol proffesiynol. Nodwyd gan Leighton Andrews AC, y Dirprwy Weinidog dros Adfywio fod yr 'undebau credyd yng Nghymru wedi gweld cynnydd pedwarplyg yn eu haelodaeth ers sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru.¹ Â chymorth Llywodraeth y Cynulliad, tyfodd aelodaeth undebau credyd o ryw 11,000 o aelodau yn 2000 i ryw 42,000 o aelodau yn 2007 – llwyddiant sylweddol yn wir.

Bu 2009 yn ddiwedd ar 8 mlynedd o fuddsoddi parhaol gan Lywodraeth y Cynulliad, â chefnogaeth arian 'Amcan 1' yr UE, cefnogaeth y trethdalwr a chyllid elusennol sylweddol, sef cyfanswm o fwy nag £8m. Felly, mae'n bryd asesu effaith yr amgylchedd polisi a'r buddsoddiad ariannol positif yma, a cheisio dadansoddi perfformiad sefydliadol ac ariannol yr undebau credyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn; adnabod y llwyddiannau ac awgrymu sut y gellir eu hefelychu; ac ailadrodd sut y gall rhai o'r profiadau heriol y mae undebau credyd wedi eu hwynebu yn ystod y cyfnod hwn fod yn fodd i ddysgu gwersi. Er mwyn gwneud hyn, defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gael gwybodaeth gan yr undebau credyd, pobl bolisi broffesiynol a rhanddeiliaid allweddol: cyfweiliadau; grwpiau ffocws; adolygu a dadansoddi deunyddiau darllen a dogfennau; a dadansoddi enillion ariannol a ddarparwyd gan yr undebau credyd ar gyfer yr FSA (Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol) (2004-2007).

Er bod llawer o bobl yn gwybod bod undebau credyd yn bod, eto i gyd mae'r farn a'r ddealltwriaeth a ganfyddir ymhlith gwleidyddion, llunwyr polisïau a "ffurfwyr barn" mewn cymunedau lleol ynghylch eu strwythur, eu diben a'u potensial mewn marchnad gwasanaethau ariannol fodern, yn amrywio. Bydd yr adroddiad hwn yn amcanu at fynd i'r afael â'r materion hyn a hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o rôl, potensial ac anghenion cymorth yr undebau credyd.

Dengys ein casgliadau yn glir y gallai dyfodol yr undebau credyd yng Nghymru fod yn un cyffrous. Ond, mae'n gyfnod o newid ac o her i fyrddau, rheolwyr a staff yr undebau credyd wrth iddynt ymdrechu i adeiladu modelau busnes cynaliadwy a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n ddeniadol i'w haelodau ac i'r boblogaeth yn gyffredinol. Bydd y ddeddfwriaeth sydd ar y gweill yn galluogi, gan herio ar yr un pryd, yr undebau credyd i ddatblygu natur eu busnes yn sylweddol. Y dewis i lawer ohonynt sydd ar y groesffordd yw aros yn sefydliadau cymunedol graddfa-fach neu symud ymlaen i adeiladu sector cydweithredol ariannol cryf sy'n ehangu yng Nghymru.

Yn yr adroddiad hwn, gosodwyd nifer o dargedau ar gyfer datblygu a thyfu oedd yn heriol ond yn gyraeddadwy. Byddwn yn amlinellu ac yn gwneud sylwadau ar sefyllfaoedd yn y dyfodol ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â'r ffordd y gellid targedu cymorth oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol. Er y gwyddom yn y pen draw mae'r aelodau, y byrddau a'r timau rheoli o fewn pob undeb credyd fydd yn penderfynu ar hyd pa drywydd datblygu y byddant yn dewis ymlwybro.

¹ Cofnod y Trafodion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tachwedd 14eg 2007.

Rhagarweiniad

Sefydliad ariannol cydweithredol y mae ei aelodau'n berchen arno ac yn ei reoli yw undeb credyd. Sefydlwyd yr undebau credyd i wasanaethu anghenion cymuned sy'n rhannu'r un nodweddion a'r un ymdeimlad o hunaniaeth, h.y. â "chwlwm cyffredin". Mae'r clymau cyffredin yn cynnwys, er enghraifft, y lleoliad daearyddol - byw neu weithio o fewn ardal ddiffiniedig (e.e. Undeb Credyd Bwrdeistref Merthyr Tudful Cyf.): mae Ffig. i.1 yn dangos yr ardaloedd cwlwm cyffredin 'byw a gweithio' yng Nghymru yn 2009. Ymhlith mathau eraill o glymau cyffredin mae gweithio i gyflogwr penodol (e.e. Undeb Credyd Transave Cyf.); bod yn perthyn i blaid wleidyddol (e.e. Undeb Credyd (Plaid Cymru) Cyf.), undeb llafur neu eglwys (e.e. Undeb Credyd Therese Sant (Port Talbot) Cyf.).

Mae rôl yr undebau credyd yng Nghymru wedi bod yn un sylweddol o ran cyrraedd cymunedau sydd wedi'u tan-wasanaethu a'u heithrio. Buont yn rhwyd ddiogelwch arbennig i lawer o bobl mewn cymunedau cefn gwlad y gwelwyd eu mynediad i wasanaethau ariannol fforddiadwy yn mynd yn fwy ac yn fwy cyfyng. Fodd bynnag, cydnabyddir gan lawer o'r undebau credyd yng Nghymru yn ogystal â rhai eraill ar hyd a lled Prydain y bydd rhaid iddynt lwyddo fel busnesau cydweithredol dichonadwy os ydynt yn mynd i wasanaethu cymunedau isel eu hincwm ac sydd wedi'u heithrio'n ariannol, mewn modd effeithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau drwy osod Cymru o fewn cyd-destun DU a rhyngwladol ehangach. Diben adran 1 yw dysgu gwersi oddi wrth y ffordd y datblygodd ac y tyfodd undebau credyd yn rhannau eraill o'r byd a allai fod yn berthnasol ac y gellid eu cymhwyso ar gyfer datblygu'r undebau credyd yng Nghymru.

Yn Adran 2 archwilir yr undebau credyd yng Nghymru, gan ddefnyddio dangosyddion allweddol a gydnabuwyd ym mudiad yr undebau credyd yn fyd-eang yn rhai sy'n rhoi mewnwelediad i berfformiad ac i ddichonolrwydd. Y fframwaith a ddefnyddir ar gyfer y dadansoddiad hwn yw 'PEARLS', cyfrwng i ddadansoddi rheoli a pherfformiad a ddatblygwyd yn y lle cyntaf yn America Ladin, ac a ddefnyddir a'i hyrwyddo ym Mhrydain gan ABCUL (Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyf) o dan drwydded oddi wrth WOCCU (Cyngor Undebau Credyd y Byd).²

Yn nhrydedd ran yr adroddiad hwn, cyflwynir y ffactorau sy'n gyfrifol am unrhyw lwyddiant a heriau a adnabuwyd yn ystod ein gwaith ymchwil. Mae'r adran hon yn ystyried diffinio rolau a chynnaladwyedd ariannol; cyfraniad i agenda cynhwysiad ariannol; datblygu gallu a sgiliau; a'r cyd-destun sefydliadol cyfnewidiol sy'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth ac uno.

Mae'r adran olaf yn cynnwys nifer o argymhellion er ystyriaeth y llywodraeth, undebau credyd a rhanddeiliaid allweddol. Nod blaenaf yr argymhellion yw cefnogi datblygiad mudiad undebau credyd yng Nghymru sy'n gryf, yn sicr ac yn effeithiol. Yn yr adroddiad, rydym wedi integreiddio proffiliau sawl undeb credyd yng Nghymru er mwyn dangos ym mhle mae'r nodweddion tebyg a'r nodweddion gwahanol o fewn mudiad yr undebau credyd yng Nghymru.

² I gael mwy o wybodaeth am PEARLS, gweler Richardson, (2002). I gael mwy o wybodaeth ar waith WOCCU, yn enwedig mewn gwledydd sy'n datblygu ac economïau sy'n newid, ewch i <http://www.woccu.org/bestpractices/pearls>

Welsh Credit Unions 2009



Ffig i.1 Map o glymau cyffredin 'byw a gweithio' yr Undebau Credyd yng Nghymru, 2009

Noder: oddi ar cyhoeddi'r map hwn, mae'n bosib bod rhai ardaloedd cwlwm cyffredin wedi newid. Er enghraifft, erbyn hyn mae Cwlwm Cyffredin Lifesavers Pen-y-bont yn ymestyn ar draws Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot hefyd.

1. Cymru mewn Cyd-destun DU a Rhyngwladol

Gwlad sydd â threftadaeth ddiwylliannol a gwleidyddol gref yw Cymru. Mae ganddi gymunedau amrywiol, arwahanol ac mae rhai ohonynt yn bod heddiw er iddynt golli'r diwydiannau oedd yn gefn iddynt. Mae Cymru'n wlad sydd â dwy iaith swyddogol ac, felly, mae ynddi gymunedau Cymraeg eu hiaith a Saesneg eu hiaith. Mae cyfansoddiad gwledig / cymoedd / trefol yn cynnig cyfleoedd a heriau ymarferol a logistaidd i'r undebau credyd a gallwn weld rhai o'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn lleoliad, maint ac aelodaeth yr undebau credyd yng Nghymru. Yr un yw llawer o'r pethau sy'n wynebu'r undebau credyd yng Nghymru ar hyn o bryd â'r rhai a welir ym mhrofiadau undebau credyd eraill mewn gwahanol fannau, ar adegau gwahanol ac ar gyfnodau gwahanol o'u datblygiad ar lefel sefydliad a gwlad. Ymhlith rhai o'r pethau hyn mae ymyriadau a pholisïau'r llywodraeth³; twf ac effeithlonrwydd, sy'n cynnwys uno a chaffael, cynladwyedd a phroffesiynoli⁴; rheoli a llywodraethu corfforaethol da⁵; rolau mewn perthynas ag amddifadedd cymdeithasol a chynhwysiad ariannol⁶; a hunaniaeth⁷. Ceisiodd llawer o'r undebau credyd yng Nghymru chwilio am fodelau a syniadau'r undebau credyd gartref a thramor: yn enwedig felly'r rhai yn Iwerddon a Gogledd America. Mae'r adran hon yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad o wledydd eraill lle y mae aelodaeth undebau credyd yn fawr a lle y mae'r profiadau cenedlaethol yn rhai nodedig a allai fod yn ddefnyddiol i'r llunwyr polisïau a'r undebau credyd mewn cyd-destun Cymreig.

Yng Nghymru fel yn Iwerddon, Sbaen, Canada a rhannau eraill o'r byd, cychwynnodd a datblygodd banciau cydweithredol a systemau ariannol amgen o ganlyniad i anghenion ariannol rhai cymunedau. Yn Sbaen, yn achos ffermwyr ac entrepreneuriaid bach, gadawodd datblygiad trefoli lawer ohonynt heb fynediad i'r systemau bancio confensiynol⁸. Yng Nghanada, tyfodd yr undebau credyd - neu *caisses populaires* - i gael cynnig gwasanaeth i boblogaethau Ffrengig Québec (y *Mouvement Desjardins*) a'r cymunedau yn Acadia gyfagos (Undebau Credyd Acadia). Mae undebau credyd Canada, yn yr un modd â'r rhai yn ardal y Basg yn Sbaen ac yn Iwerddon, yn cyfuno egwyddorion a hunaniaeth gydweithredol â hunaniaeth ddiwylliannol a chymunedol gref - sef eu bod yn gymunedau Ffrengig eu hiaith sy'n aml yn Gatholig⁹. Yn Iwerddon, roedd y cymunedau Catholig oedd wedi'u cau allan yn economaidd yn gallu cael gwasanaethau ariannol drwy gychwyn undebau credyd â chefnogaeth sylweddol yr Eglwys Gatholig.

Yn Iwerddon, mae'r undebau credyd yn amrywio o fod yn rhai sy'n cael eu rhedeg gan staff cyflogedig i rai sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Yn wahanol i'r undebau credyd yng Nghymru, yr Alban a Lloegr, nid yw'r rhai sydd yn Ngogledd

³ Gweler Chambers a Ryder (2008) Current Developments: the funding of credit unions – where has all the money gone? *Journal of Social Welfare and Family Law*, 30(2), tt 243-252

⁴ Gweler, er enghraifft, McAlevey et al (2006) New Zealand credit union mergers, ar gael ar <http://www.melbournecentre.com.au/files/MS&T.pdf>

⁵ Gweler Chaves et al 2008 Co-operative Governance: the case of the Spanish Credit Co-operatives, *Journal of Co-operative Studies* 41(2), tt 30-38

⁶ Gweler Byrne et al (2007) Money-Lending and financial exclusion, *Public Money & Management*, Chwefror, tt 45-55


⁷ Thomas et al, (2008) 'Straight from the horse's mouth': an empirical exploration of the Irish Credit Union Movement, yn *Journal of Social Welfare and Family Law*, 30 (2), tt 107-116

⁸ Chaves et al (2008), fel uchod

⁹ Côté, 2001 Les Holdings Coopératifs: typologie, questionnements, et scénarios de solution, yn Côté, D (gol) *Les Holdings Coopératifs: evolution ou transformation definitive*, deBoeck Université, tt 385-402

Iwerddon yn derbyn unrhyw gymorth ariannol oddi wrth y llywodraeth ganolog neu leol, ac o'r cychwyn cyntaf roeddynt yn apelio at aelodaeth economaidd gymdeithasol eang ac amrywiol. Gwnaethon nhw addasu a newid yn unol â'r anghenion a adnabyddid gan y gymuned a'r aelodau. Mae rhai yn ystyried mai'r datblygiad 'organig' hwn yw'r gwahaniaeth allweddol rhwng y profiad yn Iwerddon a phrofiad llawer o'r undebau credyd ym Mhrydain gan iddyn nhw "gael y dasg wedi'i rhoi iddyn nhw gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol cyn dod yn ddigon datblygedig ac yn rhan o'u cymunedau lleol."¹⁰ Mae Thomas *et al* (2008)¹¹ yn sylwi ar y tyndra rhwng rôl a diben yr undebau credyd o fewn mudiad yr undebau credyd yn yr Alban ac yn Iwerddon, lle nad yw'r undebau credyd o anghenraid yn ystyried eu hunain yn gyfryngau ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau cymhleth eithrio cymdeithasol ac ariannol, neu yn fath o "*panacea* ar gyfer problemau lleol".

Gellir gweld y tyndra hwn rhwng rolau cymdeithasol ac economaidd undebau credyd yn elfen graidd yn hanes diweddar Prydain, lle y datblygodd llawer o'r undebau credyd yn y lle cyntaf yn unol â model penodol oedd yn ymateb i'r tlodi a'r anfanteision a brofid mewn llawer cymuned ar hyd a lled Prydain.¹² Mewn llawer ffordd, pwysleisiai'r model hwn anghenion cymdeithasol undebau credyd, gan gau allan yr amcanion economaidd oedd yn ofynnol er sicrhau datblygiad cynaliadwy yn y tymor hir. Yn hytrach na meithrin datblygiad gwasanaeth ariannol cydweithredol proffesiynol wedi'i arwain gan wirfoddolwyr fyddai'n gallu ateb gofynion ariannol nifer fawr o bobl, roedd y model hwn yn helpu i hyrwyddo delwedd yr undebau credyd yn rhai 'ymylo' ac yn 'fanciau i bobl dlawd' ac efallai y bu hyn yn un rheswm pam y bu datblygiad yr undebau credyd yn gyfyng, hyd yn oed o fewn y cymunedau incwm isel yr oeddynt wedi bwriadu ymateb i'w hanghenion. Mae'r tyndra hwn yn berthnasol i ddatblygiad mudiad yr undebau credyd yng Nghymru, gan ei fod yn amlygu'r angen am gydbwysedd rhwng nodau a buddiannau ariannol a chymdeithasol. Gallwn weld lefelau cymharol isel yr aelodaeth go iawn yn erbyn yr aelodaeth bosib ym Mhrydain o'u cymharu â gwledydd eraill, fel y dengys Ffig. 1.1, isod.



Ffig. 1.1 Ymdreiddiad yr Undebau Credyd i'r Farchnad 2005-2008

¹⁰ Thomas et al (2007) fel uchod

¹¹ Ibid, 2008 – t 112

¹² Jones (1999), Towards Sustainable Credit Union Development. ABCUL, Manceinion

Dengys y graff dueddiadau ymdreiddiad yr undebau credyd i'r farchnad, WOCCU o 2005 hyd 2008 ar gyfer rhai gwledydd.¹³ Bydd WOCCU yn cael canrannau'r ymdreiddiad i'r farchnad drwy rannu cyfanswm nifer yr aelodau i undebau credyd a gofnodwyd â'r boblogaeth sy'n weithredol yn economaidd. Gallwn weld drwy edrych ar Ffig. 1.1 hefyd fod yr ymdreiddiad i'r farchnad wedi'i agredu ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban (Prydain). Fodd bynnag, awgrymir gan waith cyfrifo yn ein hymchwili mai 1.82%, 0.94% a 5.58% yw'r cyfraddau ymdreiddiad mwyaf diweddar ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban yn eu tro.¹⁴ Felly, er i ni nodi eisoes y gellir honni bod nifer y boblogaeth y mae clymau cyffredin yr undebau credyd yn ymestyn ar eu traws yn dipyn o gyrhaeddiad, mae'r ymdreiddiad i'r farchnad yn dal i fod yn gymharol fach. Mae'n bosib hefyd y gallai'r argaeledd a'r mynediad i gydfuddiannau ariannol eraill (megis cymdeithasau adeiladu) a chyfrifon banc sylfaenol, effeithio ar y gwahaniaeth yn yr ymdreiddiad ym Mhrydain o'i gymharu â gwledydd eraill. Gellir esbonio'r canrannau uchel (mwy na 100%) gan y ffaith bod rhai oedolion yn perthyn i fwy nag un undeb credyd.¹⁵

Mewn rhannau eraill o'r byd, gan gynnwys yr aelod wladwriaethau Ewropeaidd newydd, mae modd gweld bod gan yr undebau credyd rôl ddemocrateiddiol mewn economïau sy'n newid. Er enghraifft, dengys gwybodaeth ystadegol WOCCU ar ymdreiddiad i'r farchnad, dwf cyson yng ngwlad Pwyl, sy'n 6.7% ar hyn o bryd. Gwahoddwyd WOCCU¹⁶ gan wlad Pwyl – sy'n dal i gael ei chanmol yn enghraifft ddisglair o ddatblygiad a chynnaladwyedd undebau credyd. Roedd yr undebau credyd oedd yno ar y pryd yn gwasanaethu mwy na 250,000 o aelodau. Dros gyfnod o 7 mlynedd, buddsoddwyd \$US 3.8 miliwn. Am bob doler a fuddsoddwyd, cynhyrchwyd \$40US o asedau newydd. Targedwyd y cymorth ariannol a thechnegol hwn ar yr anghenion seilwaith a datblygu a adnabuwyd ar lawr, ac mae'n dangos agwedd gynhwysol "o'r gwaelod i fyny" at gefnogi a datblygu. Erbyn 2008 roedd gan y 62 undeb credyd cysylltiedig fwy nag 1.8 miliwn o aelodau¹⁷.

Dengys y ffigurau (uchod) ar gyfer Canada naid sylweddol yn yr ymdreiddiad i'r farchnad o 22% yn 2005 i 47% cyson yn y blynyddoedd wedyn. Mae Canada dipyn ar y blaen o ran datblygu undebau credyd. Gwelir yr undebau credyd yn amlwg ar y stryd fawr ym mhob un o'u hardaloedd cwlwm cyffredin. Yn Halifax, prifddinas talaith Nova Scotia, er enghraifft, mae'n cynnwys: Undeb Credyd Atlantic (9 cangen), Undeb Credyd Heritage (6 changen) - a phob un â staff cyflog ac oriau agor rheolaidd ac ystod o wasanaethau. Yn ogystal, ceir undebau credyd llai neu fwy cyfyng eu ffocws megis iNova (gynt yr undeb credyd ar gyfer gweithwyr post Nova Scotia wedi'i leoli yn adeilad post a dosbarthu'r ddinas); Undeb Credyd Cyflogaion Comisiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus ac Undeb Credyd *Teachers' Plus*, sy'n gweithio'n rhan amser ill dau. Fodd bynnag, mae gan bob aelod o undeb credyd fynediad i wasanaethau ATM cysylltiedig ar draws y dalaith i gyd. Mae'r undebau credyd eu hunain ar eu hennill o fod â gwasanaethau cymorth canolog megis yr NSCUDIC (Nova Scotia Credit Union Deposit Insurance Corporation), CUMIS (The CUMIS Group Ltd) - sy'n

¹³ WOCCU, 2009 - <http://www.woccu.org/publications/statreport>

¹⁴ Ffigurau'r FSA 2006, www.fsa.gov.uk

¹⁵ WOCCU, 2009 - <http://www.woccu.org/publications/statreport>

¹⁶ Ystyrir WOCCU yn un o'r prif asiantaethau datblygu ar gyfer micro-gyllid ac undebau credyd ac mae'n cynnig ystod o raglenni cymorth technegol, sy'n cefogi'r broses o sefydlu ac adeiladu undebau credyd mewn economïau sy'n datblygu ac yn newid.

¹⁷ <http://skok.pl.english/>

darparu ystod o gynhyrchion, gwasanaethau ac offerynnau ar gyfer undebau credyd - ac Undeb Credyd Central. Bydd yr undebau credyd yn cyfuno hefyd i weinyddu'r NSCUCF (Sefydliad Elusennol Undebau Credyd Nova Scotia).¹⁸

Mae Undeb Credyd Central yn gymorth hanfodol ac ALLWEDDOL i'r undebau credyd ar lefel talaith ac ar lefel federal. Mae'n cynnig llwyfan bancio cyffredin a chefnogaeth ac adnoddau technoleg gwybodaeth a gwasanaeth cefnogol. Gall gynnig gwasanaethau cefnogol i undebau credyd unigol - er enghraifft, cynnig morgeisi atodol os na fydd digon o arian ar gael gan yr undebau credyd lleol. Yn ogystal, mae Undeb Credyd Central yn rhoi dadansoddiadau misol o'r data ariannol a roddir gan yr undebau credyd, a defnyddir y data yma hefyd i feincnodi perfformiad yr undebau credyd ar draws talaith (er enghraifft, talaith yw Nova Scotia sydd tua'r un maint â Lloegr yn ddaearyddol). Ond yn bwysicaf oll, mae Undeb Credyd Central yn ymgymryd ag archwiliadau ac arolygiadau o'r undebau credyd. Fynychaf tîm â gwybodaeth dechnegol a phrofiad o weithio yn y sector fydd yn gwneud y gwaith ac maent yn darparu "gwiriad iechyd" hollbwysig i'r undeb Credyd. Er enghraifft, os bydd canran yr asedau'n rhy isel, neu y bydd y costau gweithredu yn fwy na'r uchafswm a argymhellwyd (5%), yna gellir rhoi cyngor a chymryd camau i adfer y sefyllfa.

Yn nes adref, yn yr Alban, rhoddodd SCUAF (Cronfa Gymorth Undeb Credyd yr Alban), a weinyddir gan yr Uned Economi Gymdeithasol, 53 o grantiau sef cyfanswm o £940,000 i helpu'r undebau credyd i brynu adeiladau, diweddarau cyfleusterau TG, a hyfforddi aelodau o'r staff a gwirfoddolwyr. Ar ben hyn, rhoddodd Llywodraeth yr Alban £400,000 ychwanegol y flwyddyn i'r undebau credyd o dan y Scottish Credit Union Service of General Economic Interest Approval Scheme. O ganlyniad i'r cymorth sylweddol hwn gan y llywodraeth, tyfodd yr undebau credyd yn gyflym iawn yn yr Alban a daethant lawer yn fwy dichonol. Cododd nifer yr aelodau o 189,317 i tua 250,000 erbyn 2006¹⁹. Rhwng 2006 a 2009, roedd wyth undeb credyd yn yr Alban wedi elwa hefyd o gronfeydd y llywodraeth drwy Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol²⁰ – cyfanswm ychydig yn fwy na £3.6 miliwn²¹.

Amlygodd arolwg diweddar o undebau credyd yn yr Alban²² ddatblygiad gwasanaethau gan gynnwys Cyfrif Cyfredol yr Undeb Credyd sy'n cynnig cerdyn codi arian ATM, a chyfleusterau debyd uniongyrchol ac archeb sefydlog neu gardiau debyd rhagdaledig, sy'n cynnig cyfleusterau codi arian. Mae rhai undebau credyd yn gallu derbyn taliadau Debyd Uniongyrchol BACS a rhai'n cynnig Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant, ISAs ac amrywiaeth o gynhyrchion yswiriant.²³ Un o gasgliadau'r adroddiad hwn yw i recriwtio aelodau mwy cefnog fod yn elfen allweddol yn nhwf a hunan-gynladwyedd yr undebau credyd, ac mae'n argymhell y dylai'r llywodraeth gynnig arian i hyrwyddo undebau credyd er mwyn cynnal 'eu hymdrechion i ddenu pobl ag incwm uwch ac arbedion na fyddai wedi ystyried defnyddio undeb credyd o'r blaen.'²⁴

¹⁸ Gweler <http://www.ns-credit-unions.com/>

¹⁹ Chambers, C. a N. Ryder (2008). "Current Developments: The funding of credit unions - where has all the money gone?" *Journal of Social Welfare and Family Law* 30(3): 243-252.

²⁰ Gweler <http://www.dwp.gov.uk/other-specialists/the-growth-fund/> i gael gwybodaeth am y fenter hon gan Lywodraeth y DU

²¹ Scottish Affairs Committee (2009) Credit Unions in Scotland: second report of the session 2008-2009

²² Scottish Affairs Committee (2009) Credit Unions in Scotland: second report of the session 2008-2009

²³ *ibid*(2009)

²⁴ *Ibid*, 2009, t 14

Mae profiadau'r undebau credyd yn rhyngwladol yn dangos er nad oes un model sy'n gweddu i bob undeb credyd neu ddatblygiad undeb credyd, mae rhai nodweddion cyffredinol neu fathau o weithgareddau o fewn sefydliad a adnabuwyd y gellir eu hystyried yn allweddol ym mhob man er mwyn datblygu undeb credyd yn llwyddiannus. Mae'r rhain wedi'u rhestru ym Mlwch 1.1 ac fe'u hystyriir yn hanfodol o ran ehangu undebau credyd yng Nghymru ac o ran eu datblygiad.

Blwch 1.1: Elfennau cyffredin datblygu undebau credyd yn llwddiannus o brofiad yn y DU ac yn rhyngwladol²⁵
• Gallu a sgiliau ariannol a rheoli drwy'r undeb credyd i gyd • Gweithdrefnau llywodraethu cadarn • Effeithlonrwydd gweithredol a rheoli a disgyblaeth ariannol • Datblygu model busnes cynaliadwy • Cydbwysedd rhwng nodau cymdeithasol ac ariannol • Cydbwysedd rhwng anghenion yr aelodau (cyfranogiad, democratiaeth, gwerthoedd cydweithredol) a gyrrwyr economaidd ac ariannol • Cwrdd ag anghenion ariannol poblogaeth gyfan cwlwm cyffredin, yn hytrach na chanolbwyntio ar y "tlodion" yn unig • Arallgyfeirio ystod o gynhyrchion a phortffolio o wasanaethau • Bod yn ymwybodol o ddynmeg llwybr i gynhwysiant ariannol • Meithrin gallu'r undebau credyd gyrraedd unigolion a chymunedau sydd wedi'u heithrio'n ariannol • Polisi a deddfwriaeth priodol ar gyfer undebau credyd er mwyn cefnogi datblygu seilwaith • Cymorth technegol a chymorth ariannol wedi'i dargedu (fel y'u dangosir gan ymyriadau WOCCU) • Seilwaith cefnogol (megis cymdeithasau masnach, asiantaethau datblygu) • Arolygiad ac archwiliad cefnogol ac allanol o'r systemau gweithredol ac ariannol yn yr un modd â'r system yng Nghanada

1.1 Cymhwyso'r profiad rhyngwladol i gyd-destun Cymreig

Mae undebau credyd Cymreig yn ffodus i gael eu hunain yn gweithio o fewn fframwaith polisi cefnogol dros ben. Mae gwleidyddion a swyddogion sy'n gweithio i Lywodraeth y Cynulliad yn ystyried bod ganddynt rôl allweddol yn y gwaith o gyrraedd targedau cynhwysiant ariannol. Yn ôl un rhanddeiliad allweddol:

Mae'r undebau credyd yng Nghymru yn rhoi mynediad hollbwysig i wasanaethau ariannol i lawer o'n dinasyddion mwyaf bregus. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi datblygu undebau credyd, ac rwy'n edrych ymlaen at weld y mudiad yn parhau i dyfu yng Nghymru. (Lluniwr polisi yng Nghymru).

²⁵ Chaves, R., Soler, F., a Sajardo, A (2008) Co-operative Governance: the case of the Spanish Credit Co-operatives, *Journal of Co-operative Studies* 41(2), tt 30-38; Côté, D (2005) Loyalty and Co-operative Identity: introducing a new co-operative paradigm in *Revue Internationale de L'Économie Sociale* RECMA # 295, tt 50-69; Evans, A.C., a Richardson, D.C (1999) *Polish Credit Union Development: building a sustainable network of financial services to serve low income masses*, Research Monograph Series Number 17. Madison, WI: World Council for Credit Unions; Cynulliad Gogledd Iwerddon (2008), *The Role and Contribution of Credit Unions in Great Britain*, Papur Ymchwil 115/08 (Belfast: Cynulliad Gogledd Iwerddon); Richardson, D. C. (2000a), 'Model Credit Unions into the Twenty-First Century', yn Westley, G. D. a Branch, B. (gol.), *Safe Money: Building Effective Credit Unions in Latin America* (Washington, DC: Johns Hopkins University Press), tt. 91-115.; Richardson, D. C. (2000b), 'Unorthodox Microfinance: The Seven Doctrines of Success', *Microfinance Bulletin*, 4: 3-7 (Washington, DC: Calmeadow)

Cefnogir y cymorth rhethregol hwn gan gymorth ariannol sylweddol. Mae cymorth ariannol ar gael ar hyn o bryd oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ar sail contractau SGEI (Gwasanaeth o Ddiddordeb Economaidd Cyffredinol) ac oddi wrth y Llywodraeth yn San Steffan drwy Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol y DWP (Adran Gwaith a Phensiynau). Defnyddiodd nifer o'r undebau credyd Cymreig y Gronfa twf er mwyn gwella'u sefyllfa ariannol yn gyffredinol ac er mwyn gweithio'n fwy uniongyrchol gyda phobl yn eu cwlwm cyffredin sydd wedi'u heithrio'n ariannol. Gweler Blwch 1.2 i gael manylion Dyraniad y Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol yng Nghymru.


Blwch 1.2 Dyraniad y Gronfa Twf yng Nghymru (Mehefin 2009 - Adran Gwaith a Phensiynau)²⁶	
Contractau Gweithredol	9
Contractau segur	5
Cyfanswm gwerth y contractau:	£3,686,172
Refeniw	£809,685
Cyfalaf	£2,420,238
Gwariant Cyfalaf	£456,249
Benthyciadau hyd Fehefin 2009	8781
Gwerth cyfartalog y benthyciadau	£470
Benthyciadau i aelodau newydd	4183
Ymgeiswyr:	
Benyw	73%
Gwryw	27%
Dadansoddiad ethnig:	
Gwyn Prydeinig	8476
Gwyn heb fod yn Brydeinig	47
Cymysg Prydeinig	9
Cymysg heb fod yn Brydeinig	3
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	7
Du/Du Prydeinig	11
Tsieineaidd/Tsieineaidd Prydeinig	0
Arall	40
Heb ddatgan/ddim yn gwybod	188

Mae hyn yn cyfateb i'r dim â Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru ac mae rhai o'r undebau credyd oedd â'r cyfraddau twf uchaf yn y sampl yn ein hymchwil yn perthyn i'r Gronfa Twf. Ond mae gan rai o'r un undebau credyd hyn gyfraddau benthyciadau tramgwyddus uchel. Trafodir y mater hwn yn fwy manwl yn nes ymlaen, ond mae'n amlgu'r angen i'r undebau credyd roi ystyriaeth strategol wrth ymgeisio am gyllid a'i ddefnyddio i gefnogi datblygiad nodau ac amcanion eu sefydliad, yn ogystal â chyfrannu i flaenoriaethau'r llywodraeth. Mae'n herio'r gallu ariannol a rheoli i gydymffurfio â holl ofynion gweithdrefnau ymgeisio a chofnodi hefyd. Fel y dengys y profiad yng Nghanaada, gall mewnbwn "ffrindiau beirniadol" ar ffurf archwiliadau ac arolygiadau'r Undeb Credyd Central gyda chefnogaeth gan sgiliau uwch ac arbenigedd technegol, gynnig cymorth hollbwysig drwy sicrhau diwydrwydd dyladwy wrth brosesu benthyciadau a mynd i'r afael â materion megis adennill dyledion. Er y cynigir cymorth datblygol ac adferol drwy Ganolfan Cydweithredol Cymru, nid yw'r arbenigedd technegol a'r gwaith arolygu ar gael ar y lefel hon i'r undebau credyd yng Nghymru ar hyn o bryd. Pan fydd y broses o reoli cyllid allanol a datblygu prosiect yn gweithio'n dda, bydd yr undebau credyd yn "iach" yn ariannol, pan fydd eu gweithdrefnau rheoli a llywodraethu yn "addas i'r diben" a phan na fydd unrhyw orddibyniaeth ar gyllido


²⁶ Gohebiaeth bersonol

allanol. Fel y dengys y profiad rhyngwladol a'r profiad mwy lleol yn yr Alban, mae cysylltiad fan yma â datblygu cronfa asedau sy'n cynnwys amrywiaeth o aelodau.

Daliodd rhai undebau credyd Cymreig ar gyfleoedd hefyd i ailstrwythuro, unwaith eto â chymorth ac wedi'u hwyluso gan arian oddi wrth yr Undeb Ewropeidd, Llywodraeth y Cynulliad, Llywodraeth y DU a ffynonellau elusennol eraill. O ganlyniad, gwelwyd llawer o'r undebau credyd yn ehangu eu hardaloedd cwlwm cyffredin i gynnwys Cymru gyfan yn ddaearyddol. Unodd nifer ohonynt ag undebau credyd cyfagos neu undebau credyd cyflenwol, ac erbyn hyn mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyflogi staff proffesiynol i helpu i reoli a gweinyddu eu gwasanaethau. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosib i bob person sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru ymuno â'i undeb credyd lleol, ond ar y cyfan ni fydd ond nifer gymharol fach o bobl yn dal ar y cyfle hwn. Yn 1999/2000, roedd nifer aelodau undebau credyd yng Nghymru yn llai na 10,000. Heddiw, dengys y ffigurau diweddaraf sydd ar gael (a goladwyd yn rhan o'r prosiect ymchwil hwn) fod aelodaeth y mudiad bellach yn cyrraedd cyfanswm o 42,982 o oedolion a 7,682 o gynilwyr ifanc. Dengys Ffig 1.3 ddsbarthiad yr aelodau ar draws yr undebau credyd. Mae'r patrymau twf ar gyfer y 5 mlynedd ddiweddaraf i'w gweld yn Ffig 1.4.




Ffig 1.3 Dosbarthiad yr aelodau (oedolion) ar draws yr undebau credyd yng Nghymru
(Y wybodaeth wedi'i choladu o holiaduron ar gyfer 29 undeb credyd)



Ffig 1.4 Twf yn nifer yr aelodau mewn undebau credyd yng Nghymru, 2002-2009
(Yn seiliedig ar ddata FSA ar gyfer 2002-06; data 2009 o arolwg ymchwil)

Dengys Ffig 1.4 dueddiad pendant tuag i fyny yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n aelodau o undeb credyd, ond fel y dwedwyd eisoes, nid yw'r ymdreiddiad go iawn i'r farchnad ond fymryn yn fwy na 1.8%. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng rhai undebau credyd penodol. Llwyddodd un undeb credyd Cymreig i fod â chyfradd ymdreiddiad aelodaeth o 12.8% yn ei gymuned leol, ond ni wnaeth ond 0.5% o'r bobl leol ymuno â'r undeb credyd oedd â'r gyfradd ymdreiddiad aelodaeth isaf. Gweler Ffig 1.5, sy'n dangos yr ymdreiddiad presennol i'r farchnad ar draws yr undebau credyd: mae'r colofnau'n cynrychioli canran yr oedolion yn y boblogaeth o fewn yr ardal gwlwm cyffredin sy'n aelodau o'r undeb credyd.



Ffig 1.5 Ymdreiddiad i'r cwlwm cyffredin (oedolion)²⁷


Dengys adolygiad o ddalgylchoedd yr undebau credyd fod un neu fwy ohonynt yn cynnwys pob un o'r 100 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru²⁸. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu o raid bod nifer yr aelodau gweithredol o'r cymunedau hyn yn fawr. Byddwn yn edrych ar fater denu aelodau yn nes ymlaen wrth ystyried rôl yr undebau credyd yn y gwaith o ddelio ag eithrio cymdeithasol yn eu hardal gwlwm cyffredin leol.

Gellir ystyried twf yn nhermau asedau'r aelodau hefyd, ac mae patrwm y twf yn galonogol yma, lle y gwelir tueddiad gweddol gyson tuag i fyny ar gyfer y blynyddoedd lle y mae data'r FSA ar gael, fel y gwelir yn Ffig. 1.6.


Fodd bynnag, bydd yr undebau credyd yn dibynnu ar y llog a enilliant o fenthycia allan arian y cynilwyr er mwyn iddo wneud enillion a chyrraedd eu targedau busnes. Felly, yn bwysicach byth, mae cyfran y benthyciadau yn ganran o'r asedau yn ddangosydd llwyddiant allweddol. Dangosir y canrannau hyn yn Ffig 1.7, lle y cymerir y cyfraddau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban am y blynyddoedd 2002 - 2006.

²⁷ Mae'r ffigur ymdreiddiad uchel a welir yn y graff yn ymwneud ag undeb credyd buddion cymunedol y mae ei aelodaeth a'i ffiniau yn benodol-gaeedig

²⁸ Fel y'u hadnabyddir a'u disgrifir yn ystadegau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 a 2008, i gael gwybodaeth ewch i www.wales.gov.uk



Ffig 1.6 Asedau'r Aelodau



Ffig 1.7 Benthyciadau yn ganran o'r asedau: Cymru, Lloegr a'r Alban 2002-2006

Mae'r tueddiadau tuag i lawr a welir yn y graff uchod yn destun pryder, gan eu bod yn dangos bod cyfran y benthyciadau o'i chymharu â chyfanswm yr asedau yn mynd yn llai. Os edrychwn yn fwy penodol ar berfformiad yr undebau credyd yng Nghymru drwy ddefnyddio dadansoddiad PEARLS (gweler yr adran nesaf, tud 19), testun mwy o bryder hyd yn oed yw na wnaeth ond 2 undeb credyd (o'r 22) gwrdd â tharged PEARLS yn 2007, sef y dylai rhwng 70% ac 80% o'r asedau fod ar fenthg gyda'r aelodau. Testun mwy o ofid eto yw'r ffaith bod 64% o'r sampl hwn yn rhoi benthg ar lai na 60% o'u hasedau.

Nododd nifer o'r undebau credyd i'w gallu i brosesu benthyciadau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf newid a'u bod yn llwyr ymwybodol o'u statws "cefnog o ran arian", eu bod yn poeni yn ei gylch, ac am effeithiau'r sefyllfa economaidd anffafriol bresennol. Er bod rhai undebau credyd yn chwilio am ffyrdd y gellir codi lefel y benthg, gallai hyn fod yn ddigon anodd i rai ohonynt ac, os bydd llai o ad-daliadau o fenthyciadau blaenorol yn digwydd mae'n ddigon posib y gallai hyn niweidio eu perfformiad yn gyffredinol a'u dichonolrwydd ar brydiau.

Yn rhan o broses ailstrwythuro, partneru ac uno, datblygodd rhai undebau credyd eu portffolio o gynhyrchion a gwasanaethau hefyd sydd, fel y gwelwyd eisoes, yn cael ei ystyried yn ffactor o ran adeiladu cryfder a gallu undebau credyd. Mae nifer o'r

undebau credyd yng Nghymru yn cynnig Cyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant, 'benthyciadau cyflym' a chyfraddau llog newidiol, sy'n seiliedig ar asesiad o'r gwahanol gostau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â benthycia i aelodau gwahanol (er enghraifft, codi mwy na'r 1% y mis arferol ar weddillion am fenthyciadau bychain neu fenthyciadau i aelodau risg uchel neu aelodau newydd).

Ceir enghreifftiau hefyd o bartneriaethau gyda Swyddfeydd Post a'r rhwydwaith 'Pay Point'. Mae Undeb Credyd Llandudno yn cynnig y 'Cyfrif Cyfredol Undeb Credyd' yn ogystal ag ystod gynyddol o gynhyrchion a gwasanaethau cystadleuol a hyblyg. Mae undebau credyd eraill wrthi yn caffael cardiau debyd rhagdaledig i roi mynediad mwy hygyrch i'w haelodau i'w harian hwythau. Ond ni ellir dweud i sicrwydd i ba raddau y bydd arallgyfeirio eu cynhyrchion yn elfen allweddol os yw mudiad yr undebau credyd yn mynd i dyfu. Yn wahanol i Landudno, cred rhai undebau credyd fod eu dyfodol i'w weld mewn cynyddu eu rhan yn y farchnad cynilion a benthyciadau craidd a mabwysiadu gwasanaethau estynedig yn unig (megis eu partneriaeth â Swyddfeydd Post lleol) lle y bydd y rhain yn helpu i hwyluso a chynnal yr amcan hwn.

Ar y cyfan, gwelwyd datblygiadau sylweddol ym mudiad yr undebau credyd yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf. Derbynnir yn gyffredinol bod angen cynnig gwasanaeth i boblogaethau cyfan mewn ardaloedd cwlwm cyffredin a bod angen sicrhau aelodau amrywiol. Ar hyn o bryd, er y duedd tuag at fwy o aelodau o 2002 i 2009, eto i gyd mae'r broses o recriwtio aelodau newydd yn arafu ar y cyfan hefyd fel y dengys dadansoddiad PEARLS (gweler tt 26-27). Lle y gwelir yr undebau credyd yn tyfu'n sylweddol, bu hyn i raddau o ganlyniad i ailstrwythuro ac uno yn hytrach na recriwtio aelodau newydd. Mae aelodaeth mwy na 40% o undebau credyd naill ai'n aros yn yr unfan neu ar i lawr ac adroddwyd gan un undeb ostyngiad o 30% yn nifer ei aelodau yn 2007. Fel yr awgrymwyd wedyn, gallai'r ffaith eu bod yn fwy gwyliadwrus wrth brosesu cyfrifon segur fod yn gyfrifol am hyn.

Mae'r undebau credyd yng Nghymru yn datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd ac amrywiol. Mae llawer yn manteisio ar y cyllid cyfalaf ac arian prosiectau ar gyfer mentrau marchnata a thargedu aelodau newydd. Mae rhai'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a chymorth technegol a magu sgiliau eu Bwrdd ac mae gan nifer o undebau credyd staff sydd ar gyflog.

Mae dau ddimensiwn allweddol, a adnabuwyd o brofiad yn y DU ac yn rhyngwladol, yn cyfrannu i iechyd undeb credyd, sef effeithlonrwydd gweithredol a rheoli, gan gynnwys disgyblaeth ariannol, gweithdrefnau cadarn o ran atebolrwydd, llywodraethu ac effeithiolrwydd, ac ystyrir y rhain yn yr adran nesaf.

Proffil Undeb Credyd: Undeb Credyd Llandudno a'r Cylch – cynhyrchion a gwasanaethau newydd

Sefydlwyd LDCU (Undeb Credyd Llandudno a'r Cylch) yn 1996 a dechreuodd ar ei waith o swyddfa yn un o adeiladau'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyda grŵp ymroddedig o wirfoddolwyr a obeithiai y gallai ddod i ariannu ei hunan heb droi at arian allanol. Y symbyliad gwreiddiol yn bennaf oedd cynnig gwasanaethau i'r rhai oedd wedi'u cau allan yn ariannol. Erbyn 2000, roeddynt wedi agor 3 phwynt casglu ac roedd ganddynt 500 o aelodau. Pan ddaeth arian Amcan 1 ar gael o Ewrop, fe'u gwelwyd yn dal ar y cyfle i gyflogi staff a symud i safle ar y stryd fawr. Yn gyfochr â'r datblygiadau hyn, buont yn gweithio gyda Chyngor Conwy i ymestyn eu cwlwm cyffredin i gael cynnwys y fwrdeistref gyfan. Tyfodd aelodaeth yr undeb credyd 460% dros y 7 mlynedd ddiwethaf a chynyddodd ei asedau 351%, ac felly hwn yw un o'r undebau credyd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU gyfan. Mae ganddo 2,200 o aelodau ac mae 80% ohonynt wedi'u lleoli yn y llain arfordirol yng Ngogledd y fwrdeistref a'r gweddill yn yr ardaloedd mwy gwledig. Mae tua 40% o'r aelodau ar fudd-daliadau, 40% mewn swyddi incwm isel neu ganolig, a'r gweddill naill ai wedi ymddeol neu'n ffaeledig neu eraill. Ar hyn o bryd, bwrdd o 10 person sy'n rhedeg yr undeb credyd ac maent yn gweithio mewn partneriaeth â'r rheolwr a gwirfoddolwyr allweddol yn arwain a rheoli'r undeb credyd, ynghyd â nifer o gyfarwyddwyr sy'n dal i ymwneud â'r gweithrediadau o ddydd i ddydd. Ond, er bod llawer o'r cyfarwyddwyr yn gweithio ar lefelau sy'n gofyn am sgiliau a chymhwysedd uchel, maent hwy eu hunain a'r bwrdd yn cydnabod bod angen cryfhau'r bwrdd. Ar hyn o bryd, cyflogir 3 aelod o'r staff yn amser llawn a 3 yn rhan-amser a chyllidir un o'r swyddi llawn amser a 2 o'r swyddi rhan-amser drwy gontract Gronfa Dwf y DWP. Mae Llandudno wedi bod yn frwd dros y "model newydd" ar gyfer undebau credyd – yn torri'r cysylltiad rhwng cynilion a benthyciadau, codi cyfraddau llog amrywiol wrth fenthycia, bod â'r nod o dalu difidend ar y cynilion, a chyflwyno cynhyrchion newydd, gan gynnwys Cyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant a benthyciadau cyflym â chefnogaeth y DWP. Mae cynlluniau ar y gweill i gyflwyno Cyfrif y Porth Cynilo newydd pan fydd hwn ar gael y flwyddyn nesaf, ac LDCU yw'r unig undeb credyd yng Nghymru sydd wrthi nawr yn ceisio cyflwyno Cyfrif Cyfredol yr Undebau Credyd mewn partneriaeth â Banc y Co-operative ac ABCUL. I'r perwyl hwn, mae'n ceisio uno ag undebau credyd cyfagos i ffurfio un sefydliad ar gyfer Gogledd Cymru fydd yn ddigon o faint i ddarparu'r cyfrif cyfredol yn effeithiol ac ar gost resymol. Oddi ar 2002-2009, bu LDCU yn derbyn grantiau prosiect a chontractau oedd yn werth mwy na £690,000 i gyd. Derbyniodd gyllid sylweddol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad (£187,000) ac oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (£60,000) yn benodol i ddatblygu'r prosiect bancio.

Proffil Undeb Credyd: Undeb Credyd SAVEEasy, Llanelli – codi'r ymdreiddiad i'r farchnad o ran gwasanaethau craidd

Sefydlwyd Undeb Credyd Llanelli a'r Cylch (sy'n masnachu o dan yr enw 'SAVEEasy') yn 1998 gan grŵp o 22 o weithwyr y Blaid Lafur a Chydweithredol leol, (a ysbrydolwyd gan esiampl Undeb Credyd Save Easy yn Arizona, UDA), o fewn etholaeth y Gwir Anrh. Denzil Davies, yr AS Llafur lleol sydd bellach wedi ymddeol ac a fu'n allweddol yn y gwaith o basio Deddf Undebau Credyd 1979. Mae'r undeb, sy'n gweithio o swyddfeydd yng nghanol Llanelli, wedi ymestyn y cwlwm cyffredin yn raddol i gael cynnwys Sir Gaerfyrddin a nifer o wardiau yng Ngorllewin Abertawe. Mae'n cyflogi Rheolwr Cyffredinol, Rheolwr Gweithrediadau, a 4 aelod o staff amser llawn. Mae ganddynt gasglwr carreg drws rhan-amser hefyd (wedi'i yswirio drwy Yswiriant Co-operative), a gweithiwr Cronfa Ymddiriedolaeth Plant rhan-amser. Telir am wasanaethau glanhawr, ymgynghorydd TG a chyfrifydd ar gontract am nifer o oriau'r wythnos. Cefnogwyd y staff cyflog ar y dechrau gan arian Amcan 1 Ewrop drwy Lywodraeth y Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae 10 swyddfa bost leol yn gweithredu fel asiantau casglu, mae 3 aelod yn rhedeg pwyntiau casglu yn eu siopau, a chynigir gwasanaeth "cynilo a chasglu" mewn neuaddau bingo a chlybiau cymdeithasol lleol. Mae'r bwrdd wedi'i ffurfio o 15 aelod o amrywiaeth o gefndiroedd busnes a phroffesiynol, sy'n gweithio mewn partneriaeth agos â'r staff yn arwain a chyfarwyddo'r busnes. Penderfynodd SAVEEasy beidio â chymryd rhan yng Nghronfa Twf DWP gan ddweud y byddai'n well ganddynt ganolbwyntio ar gynyddu ymdreiddiad y farchnad benthyciadau gynilion-seiliedig graidd – sy'n tyfu 3-4% y flwyddyn ar hyn o bryd. Bydd y cynnydd disgwylidig yn ei ardal gwlwm cyffredin yn codi nifer yr aelodau posib 64%, a ystyrir yn gyfle allweddol i dyfu, ac maent yn gobeithio symud tuag at fuddsoddi'n sylweddol mewn swyddfeydd newydd, mwy o faint. Byddant yn ystyried sut i gyflwyno'r cyfrifon 'Porth Cynilo' newydd pan gân nhw eu lansio, ac maent wedi awgrymu datblygu cynllun stampiau cynilo cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd. Cyn 2006, derbyniodd SAVEEasy fwy na £200,000 oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi ei fenter gyda'r swyddfa bost.

2. Mesur Perfformiad Ariannol a Gweithredol

Gofynnwyd i bob undeb credyd ddarparu eu datganiadau ariannol FSA (Awdurdod Gwasanaethau Ariannol) am y cyfnod 2004-2008 er mwyn ymgymryd ag asesiad cymharol o'u perfformiad ariannol a gweithredol. Oherwydd amseru'r casglu data, nid oedd ffurflenni 2008 bob amser ar gael, felly 2007 oedd y flwyddyn gyflawn ddiwethaf o wybodaeth ariannol a gweithredol a goladwyd. Dadansoddwyd gwybodaeth o 27 o'r 31²⁹ undeb credyd drwy ddefnyddio PEARLS³⁰, sef offeryn rheoli ariannol WOCCU.

Mae PEARLS yn offeryn dadansoddi safonol ar gyfer undebau credyd ledled y byd³¹. Mae PEARLS, sy'n fframwaith asesu rheoli a pherfformiad, yn gallu mesur meysydd allweddol o fewn gweithrediadau'r undebau credyd, o ran eu strwythurau ariannol a'u twf, ac mae'n galluogi undebau credyd i adnabod problemau a chael hyd i atebion o ran diffygion. Mae PEARLS yn gosod safonau ar gyfer undebau credyd yn y meysydd canlynol, ac yn Saesneg mae'r gair PEARLS yn acronym ar gyfer y system fonitro:

Protection/Diogelu - sy'n cyfeirio at ddigonolrwydd y darpariaethau ar gyfer colli benthyciadau o ran dyledion gwael go iawn a phosib

Effective financial structure/Strwythur ariannol effeithiol - sy'n mesur benthyciadau, asedau, adneuon cynilo ac enillion yn gyfran o'r asedau cyfan

Asset quality/Ansawdd yr asedau - sy'n mesur lefel y benthyciadau tramgyddus a maint yr asedau anenillol

Rates of Return and Costs/Cyfradd Enillion a Chostau - sy'n mesur yr incwm net i undeb credyd a lefel y treuliau a'r costau gweithredol

Liquidity/Hylifedd - yn mesur lefel y buddsoddiadau hylifol a'r cronfeydd wrth gefn yn erbyn posibilrwydd codi cynilion o'r undeb credyd

Signs of growth/Arwyddion twf - yn mesur cyfraddau twf cyfanswm yr asedau, benthyciadau, adneuon cynilo, cronfeydd cyllid a'r aelodaeth.

Mae PEARLS wedi'i ffurfio o 40 o gymarebau ariannol cydgysylltiedig. Gosodir nod rhagoriaeth ar gyfer pob cymhareb – gwneir hyn yn y lle cyntaf gan WOCCU ac yna bydd yn cael ei addasu i'w ddefnyddio o fewn y mudiad ym Mhrydain. Yn aml, bydd y nodau rhagoriaeth hyn yn mynnu mwy na gofynion presennol yr FSA. Mae pwysigrwydd PEARLS ar gyfer yr undebau credyd yn troi o gwmpas y ffaith bod cymharu drwy gymhareb yn dangos faint mae pethau wedi'u cydgysylltu o fewn strwythur ariannol, sefydliadol a gweithredol mewnol yr undeb credyd. Bydd lefelau isel o fenthyciadau, er enghraifft, yn golygu hylifedd uchel a chyfradd enillion isel ar asedau. Drwy ddadansoddiad PEARLS, gellir sicrhau gwaith penderfynu a llywodraethu strategol sy'n fwy gwybodus.

²⁹ Ar hyn o bryd mae 29 undeb credyd yn weithredol. Mae dau undeb credyd wedi uno ag undebau credyd eraill ond redden nhw wedi rhoi gwybodaeth ariannol; roedd un newydd ei ffurfio yn 2007 ac, felly, nid oedd data ar gael ac roedd un undeb credyd heb roi unrhyw wybodaeth am y cyfnod.

³⁰ Gwnaethpwyd hyn mewn cydweithrediad ag ABCUL.

³¹ Cafodd PEARLS ei ddatblygu'n wreiddiol yn America Ladin, a chaiff ei hyrwyddo ym Mhrydain gan ABCUL o dan drwydded oddi wrth WOCCU. Yng Nghymru, dim ond pedwar undeb credyd sydd heb fod yn aelodau o ABCUL.

O'r mwy na 40 dangosydd, mae WOCCU yn adnabod nifer o ddangosyddion allweddol - 13 i gyd - sy'n cynnig trosolwg o berfformiad a dichonolrwydd undeb credyd. Cafodd y rhain eu haddasu gan ABCUL i fod yn wlad-benodol ac i adlewyrchu'r arfer a'r profiad ym Mhrydain. Defnyddiwyd dangosyddion blaenoriaeth ABCUL yn offeryn dadansoddi ar gyfer yr astudiaeth hon (gweler Tabl 2.1).

Tabl 2.1: Cymhareb PEARLS allweddol		
	CYMAREBAU P-E-A-R-L-S	Nodau (Rhagoriaeth)
P	Protection	
P2	Darpariaethau Dyledion Gwael Net / ar gyfer Benthyciadau Tramgwyddus. 1-12 Mis	Darpariaeth ar gyfer 35% o'r holl fenthyciadau tramgwyddus sydd heb eu had-dalu am rwng 1 a 12 mis
P6	Solfedd	O leiaf 111%
E	Effective financial structure	
E1	Benthyciadau Net / Asedau Cyfan	70-80% o'r asedau i fod ar fenthgy
E5	Adneuon Cynilo / Asedau Cyfan	70-80%
E8	Cyfalaf y Sefydliad / Asedau Cyfan	≥ 10%
A	Asset quality	
A1	Cyfanswm Benthyciadau Tramgwyddus / Portffolio Benthyciadau Gros	≤ 5%
R	Rates of Return and Costs	
R9	Costau gweithredol / Asedau Cyfartalog	5% neu lai
R11	Incwm Arall / Asedau Cyfartalog	Minimol
R12	Incwm Net / Asedau Cyfartalog (ROA)	Digon i gyrraedd nod yr FSA o 10% cyfalaf sefydliadol
L	Liquidity	
L1	Asedau Hylifol - Taladwy yn y Tymor Byr / Cyfanswm yr Adneuon	15-20%
S	Signs of growth	
S10	Aelodaeth	O leiaf 12%
S11	Cyfanswm yr asedau	Mwy na chwyddiant + 10%

2.1 Y pethau mae dadansoddiad PEARLS yn dweud wrthym am undebau credyd yng Nghymru

Dangoswyd gan ymchwil blaenorol (Jones 2005³²) fod undebau credyd yn tyfu'n gyflymach pan fyddant yn cynllunio ac yn rheoli eu busnes ar sail data cadarn mesuradwy, ac mae personél yr undebau credyd yn cydnabod mwyfwy bod dadansoddi perfformiad ariannol mewn ffordd fesuradwy a gwrthrychol yn arfer busnes safonol hanfodol. Mae'r data a'r dystiolaeth a gynhyrchwyd drwy ddadansoddiad PEARLS yn herio aelodau byrddau, rheolwyr a staff yr undebau credyd i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a ffeithiau yn hytrach nag ar farn yn unig, ac i adnabod mannau lle y gellir gwella. Drwy wneud hyn, mae dadansoddiad PEARLS yn adnabod problemau ac yn cynorthwyo'r undebau credyd i gael hyd i atebion i ddiffygion sefydliadol a gweithrediadol. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yma yn amlygu cryfderau presennol yr undebau credyd yng Nghymru, ond hefyd fannau lle y gellir gwella.

Mae rhai bylchau data yn y wybodaeth a gasglwyd oddi wrth yr undebau credyd. Digwyddodd hyn am fod rhai undebau credyd yn gymharol newydd; unodd rhai yn ystod y cyfnod; ni wnaeth rhai undebau ddarparu eu data gwreiddiol; neu, weithiau, roedd y data ariannol a gweithredol yn anghyflawn neu'n anaddas. Ond casglwyd digon o wybodaeth i gael cynnig trosolwg sicr o "gyflwr iechyd" yr undebau credyd, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd. Er mwyn darparu crynodeb o

³² Jones, P.A., (2005) *Creating wealth in the West Midlands through sustainable credit unions*. An Action Research Report. ABCUL

ddadansoddiad cymharol, defnyddiwyd data 2005 a 2007 a rhoddwyd rhif arbennig (1-31) i bob undeb credyd er mwyn iddynt gael aros yn ddienw.

Protection / Diogelu

Mae diogelu'r asedau'n hanfodol, ac mae'r mesur cyntaf (dangosydd P2) yn gwerthuso i ba raddau y darparodd yr undebau credyd ar gyfer colledion benthyciadau, h.y. darpariaeth ar gyfer dyledion gwael neu fenthyciadau sydd o bosib heb eu had-dalu (h.y. efallai y bydd rhaid eu dileu). Os felly, tybir bod y diogelwch yn ddigonol os gall yr undebau credyd ddangos darpariaethau ar gyfer 35% o'r holl fenthyciadau tramgwyddus sydd heb eu had-dalu am rwng 1 a 12 mis.

Yn ein sampl, o'r 22 undeb credyd sy'n adrodd ar 2005 a 2007, adroddwyd gan 95% a 91%, yn eu tro fod eu darpariaeth yn fwy na 35%, a dangosodd 64% ddarpariaeth o 70% neu fwy. Erbyn 2007, gwelodd 59% ostyngiad yn eu darpariaeth benthyc, er bod y mwyafrif yn uwch na'r nod o 35%, ac roedd 18% o'r undebau credyd wedi llwyddo i godi eu darpariaeth fenthyc yn ystod y cyfnod dwy-flynedd hwn. Fodd bynnag, nid oedd ond 30% o'r undebau credyd wedi dileu benthyciadau tramgwyddus (dros 12 mis heb eu had-dalu) yn llawn yn 2007 o'i gymharu â 45% yn 2005 sy'n awgrymu, fel yr awgrymwyd eisoes yn yr adroddiad, bod dyledion gwael yn mynd yn fwy ac yn fwy o broblem i rai undebau credyd.

Mae solfedd yn ail ddangosydd allweddol (P6). Mae hwn yn mesur faint o ddiogelwch y byddai undeb credyd yn gallu ei gynnig ar gyfer cynilion ei aelodau pe bai asedau a dyledion yr undeb credyd yn cael eu datod. Ond mae'n bwysig nodi bod safon PEARLS wedi'i gosod yn uwch na'r mesur sylfaenol ar gyfer solfedd, y bydd y gwerth net positif yn cael ei gyfrifo ar 100%, sy'n dangos bod asedau'r undeb credyd yn gallu cwrdd â'i ddyledion. Mae safon PEARLS yn fwy neu'n hafal i 111%, sy'n dangos y gall yr undebau credyd wneud mwy na chwrdd â'u dyledion. Mae'r safon uwch hon yno er mwyn ffurfio undebau credyd yn sefydliadau cryf a sefydlog, sydd wedi'u diogelu'n dda yn erbyn unrhyw anawsterau ariannol yn y dyfodol.

Erbyn 2007, dangosodd y data a gasglwyd oddi wrth y 22 undeb credyd werth net positif (cymhareb o fwy na 100% - er i 40% o undebau credyd ddangos gostyngiad bach o ran diogelwch), o'i gymharu â 95% yn 2005. Fodd bynnag, 27% yn unig a lwyddodd i gyrraedd safon PEARLS o ran bod yn solfedd yn 2005 a 2007, sy'n dangos bod angen i fwy na 70% o'r grŵp flaenoriaethu eu cryfder ariannol drwy grynhoi arian wrth gefn.


Effective financial structure / Strwythur ariannol effeithiol

Mae'r gymhareb benthyciadau net : cyfanswm yr asedau (E1) yn mesur canran yr asedau cyfan a fuddsoddwyd ym mhortffolio'r benthyciadau. Rhaid i asedau fod allan ar fenthyc cyn y gallant gynhyrchu incwm i dalu am y costau ac adeiladu arian wrth gefn, tra'n gwasanaethu aelodau drwy gynnig y benthyciadau y mae eu hangen ar yr un pryd. Targed PEARLS yw i 70%-80% o'r asedau fod allan ar fenthyc gyda'r aelodau. Mae Ffig 2.1 yn dangos canrannau'r gymhareb Benthyciadau : Asedau ar gyfer undebau credyd unigol.

Yn 2007, 2 undeb credyd yn unig o'r 22 (9%) lwyddodd i gyrraedd targed PEARLS. Roedd 2 undeb credyd(9%) yn benthyc mwy nag 80% o'u hasedau. Mae hyn yn

dangos bod galw mawr am fenthyciadau yn yr undebau credyd penodol hyn, yn ôl pob tebyg, a lefel uchel o wasanaeth i'r aelodau, ond ar yr un pryd mae'n gallu creu problemau hylifedd.

Roedd llawer mwy, cyfanswm o 14 undeb credyd(64%), yn rhoi benthyg llai na 60% o'u hasedau. Gostyngodd canran yr asedau oedd ar fenthyg mewn mwy na thraean (36%) o undebau credyd rhwng 2005 a 2007. Mae hyn yn awgrymu nad yw nifer o'r undebau credyd yn gwneud y gorau o'u potensial yn sefydliadau cynnig-credyd a gallai ddangos bod angen polisiâu ar fenthyciadau a gweinyddu credyd sy'n fwy effeithiol. Ond, fel y dangoswyd eisoes yn yr adroddiad, mae'r tueddiad hwn yn un sydd i'w weld ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban a gallai fod yn arwydd o ffactorau mwy macro-economaidd a'r newid yn ymddygiad y sawl sy'n rhoi/cael benthyg o ganlyniad i'r 'wasgfa gredyd'. Mae'n bwysig nodi hefyd y gallai rhai undebau credyd Cronfa Twf Cynhwysiant Ariannol fod yn derbyn arian oddi wrth y DWP ar gyfer benthyca ymlaen ond iddynt fod heb droi'r cyllid hwn yn fenthyciadau eto. Byddai hyn yn lleihau eu cymhareb benthyciadau / asedau.



Ffig 2.1: Cymhareb benthyciadau yn erbyn asedau

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae bod yn gallu sicrhau aelodau bod digon o asedau hylifol ar gael i ofalu am eu cynilion a bod ffordd bwylllog o ystyried benthyciadau newydd yn dangos agwedd gall y gellir ei deall. Ond mae cynladwyedd ariannol tymor-hir yn dibynnu ar gael mwy o gynilion yr aelodau allan ar fenthyg a sicrhau enillion arnynt.

Dangosydd allweddol arall yw'r gymhareb cynilion / asedau. Y nod ar gyfer dangosydd adneuron cynilo / asedau cyfan (E5) yw rhwng 70 ac 80%. Cafodd yr undebau credyd yng Nghymru eu hariannu'n bennaf drwy gynilion yn hytrach na thrwy gyllid allanol a roddwyd ar gyfer benthyca ymlaen. Gall canran iach o adneuron cynilo ddangos bod undeb credyd o bosib, er enghraifft, wedi datblygu marchnata sydd wedi'i dargedu ac sydd wedi'i ddatblygu'n dda a gallai fod ar y ffordd i gael bod yn hunan-gynaliadwy yn ariannol ³³. Yn 2005, roedd y gymhareb cynilion cyfartalog i asedau yn 81% (22 undeb credyd). Gwelwyd gostyngiad o 7% o 2005 i 2007 i 74%, a'r rheswm am hyn yn fwy na thebyg oedd y Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol.

³³ Richardson (2002) 'Unorthodox Microfinance: The Seven Doctrines of Success', *Microfinance Bulletin*, 4: 3-7 (Washington, DC: Calmeadow).

Yn olaf, yn rhan o'r set arbennig hon o safonau, mae mesur cyfalaf y sefydliad (E8) – neu'r cronfeydd statudol wrth gefn – mewn perthynas â'r asedau cyfan. Os daw hi i'r pen, gellir defnyddio asedau'r sefydliad i gymryd colledion y benthyciadau neu ddiffygion ariannol gweithredol, er ei bod yn gallach creu darpariaethau digonol fydd yn gallu cymryd unrhyw golledion benthyciadau, fel y gwelwyd eisoes. Y targed yw cymhareb cyfalaf / asedau sydd yn 10% o leiaf.

Ym Mhrydain, cofrestrir yr undebau credyd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Ariannol yn undebau credyd 'Fersiwn 1' neu 'Fersiwn 2'³⁴. Nid oes rhaid i undebau credyd Fersiwn 1 – mae pob undeb credyd yng Nghymru yn y categori hwn – gwrdd ag unrhyw darged cyfalaf sefydliadol penodol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n glir y bydd yr FSA yn cyflwyno gofyniad cyfalaf isaf, sydd heb ei benderfynu eto, yn y dyfodol agos. Rhagdybir y gallai hyn fod tua 3% o bosib. Yn 2007, o'r 22 undeb credyd y mae data llawn ar gael arnynt, roedd bron 70% yn cwrdd â'r targed cyfalaf/asedau hwn o 3%.

Ond mae cymhareb cyfalaf/asedau o 5% yn fesur pwysig ar gyfer undebau credyd Fersiwn 1, gan y bydd cyrraedd y gymhareb hon yn galluogi gweithgareddau ychwanegol i ddigwydd. O 2007 ymlaen, er enghraifft, câi undebau credyd Fersiwn 1 dalu dididendau gwahanol ar gyfrifon gwahanol, cyhyd ag y byddent ar adeg y talu â chymhareb cyfalaf/asedau oedd yn 5% o leiaf ac na fyddai talu'r dididend yn gostwng y gymhareb i lai na 5%. Roedd cymhareb cyfalaf / asedau yn uwch na 5% gan 41% o'r grŵp.

Ar ben hyn, yn ôl PEARLS, argymhellir bod cyfalaf digonol o 10% o leiaf gan yr undebau credyd. Yn 2007, cyrhaeddodd 10% o'r grŵp safon cyfalaf sefydliadol PEARLS (dim un yn 2005) ac roedd cymhareb cyfalaf negyddol o -8% gan un undeb credyd. Ond cymerwyd camau gan yr undeb credyd hwn i adfer y sefyllfa ac mae'n parhau i fod yn abl i fasnachu.

Asset Quality / Ansawdd yr Asedau

Gellir ystyried asedau mewn dwy ffordd - asedau sy'n cronni neu'n cynhyrchu incwm ac asedau anenillol. Gall asedau anenillol effeithio'n negyddol ar berfformiad undebau credyd, felly mae'n bwysig adnabod effeithiau posib yr asedau hyn. Mae cymhareb Cyfanswm Benthyciadau Tramgwyddus / Portffolio Benthyciadau Gros (A1) yn mesur canran gweddill y benthyciadau tramgwyddus sydd heb eu had-dalu ym mhortffolio'r benthyciadau. Mae'n mesur maint y benthyciadau sydd ar y llyfrau sy'n agored i ddiffygdlu neu i gael eu dileu.


Targed PEARLS yw y dylai'r gymnhareb dramgwyddus ratio fod yn llai na neu'n hafal i 5% ar fenthyciadau sy'n fis neu fwy yn ddyledus. Yn y cyd-destun Prydeinig, lle y caiff y tramgwyddo ei fesur ar fenthyciadau sydd dri mis yn ddyledus yn unig, dylai'r targed cymhareb hwn fod yn is na 5%. Fodd bynnag, er mwyn hwyluso'r gwaith cyfrifo, mae ABCUL yn defnyddio'r targed 5% yn darged safonol. Drwy graffu ar Ffig.

³⁴ Mae Rhan IV y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol yn diffinio undebau credyd nail ai'n 'Fersiwn 1' (yn cynnig yr ystod draddodiadol o wasanaethau cynilo a benthg o dan amodau rheoliadau sydd rhywfaint yn fwy llym) neu'n 'Fersiwn 2' (sy'n fwy ac yn ariannol gryfach ac felly gellir ymgymryd ag ystod ehangach o wasanaethau, benthyciadau mwy, ac ati). I gael rhagor o fanylion, gweler taflen wybodaeth ABCUL: 'Version 1 and Version 2 – what is the difference?' ar

<http://www.abc.ul.coop/lib/libDownload/908/Version%201%20and%20Version%202%20-%20what%20is%20the%20difference.pdf>

2.2 isod, yn 2007 roedd yn ymddangos bod 23% o undebau credyd yn rheoli dyledion gwael o fewn terfynaau PEARLS. Mae hyn yn cymharu â 41% o undebau credyd yn 2005.

Yn 2007, roedd gan 41% o'r undebau credyd gymarebau dyledion gwael oedd yn fwy na dwywaith y gymhareb targed a argymhellir gan PEARLS. Roedd hwn wedi codi o 32% o undebau credyd yn 2005. Mewn rhai undebau credyd, aeth benthyciadau tramgwyddus yn dipyn o broblem, yn cyrraedd 27% hyd yn oed mewn un achos. Er i'r 'wasgfa gredyd' ddechrau yn ystod cyfnod yr adolygiad, y ddyled wael ganolrif yn y grŵp o 22 yw 7.75% sydd fymryn yn uwch na'r canolrif o 7.14% yn 2005. Mae dyledion gwael sydd ar gynydd yn broblem allweddol i'r undebau credyd a byddant yn y pen draw yn arwain at fethdalau. Mae angen archwilio problem dyledion gwael ymhellach yn sawl un o'r undebau credyd i gael hyd i'r rhesymau sy'n gyfrifol amdanynt ynghyd â gwelliannau sydd eu hangen er mwyn cyrraedd y canlyniadau targed.



Ffig 2.2: Benthyciadau tramgwyddus mewn 22 undeb credyd

Rates of Return and Costs/Cyfraddau Enillion a Chostau

Mae'r gymhareb costau gweithredu / asedau cyfartalog (R9) yn mesur y gost sy'n gysylltiedig â rheoli pob un o asedau undeb credyd. Mesurir y gost yma yn ganran o'r asedau cyfartalog o'r flwyddyn bresennol a'r blynnyddoedd blaenorol, ac fe ddengys i ba raddau y mae'r undeb yn gweithio'n effeithiol neu'n aneffeithiol. Yn ôl PEARLS, mae cymhareb o lai na 5% gan undebau credyd effeithlon. Gallai undebau credyd aneffeithlon â chymarebau costau uchel ei chael hi'n anodd talu cyfraddau enillion go iawn ar gynilion a chodi cyfraddau cystadleuol ar fenthyciadau.

Yn 2007, roedd 3 o'r 22 undeb credyd yn gweithredu o fewn safon effeithlonrwydd PEARLS³⁵. Undebau bychain oedd yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr oedd y rhain, heb gostau staff cyflogedig a heb unrhyw gyllid o'r tu allan. Roedd costau gweithredu uwch gan bob undeb credyd oedd yn cyflogi staff.


Mae gan fwy na 60% o'r 22 undeb credyd darged sy'n fwy na dwywaith y lefel darged o 5% o'r costau gweithredol / asedau cyfartalog. Yn y gorffennol, cafodd rhai costau staffio a chostau gweithredu eu gwarantu drwy arian o Lywodraeth y Cynulliad

³⁵ Mae'r ffigur hwn yn berthnasol wrth edrych ar y wybodaeth a roddwyd ar gyfer 27 undeb credyd ar gyfer 2007.

neu o Ewrop, a pharheir i'w cefnogi i ryw raddau drwy gontractau SGEI a Chronfa Twf Cynhwysiant Ariannol y DWP. Fodd bynnag, yn y tymor hwy mae cynladwyedd yn dibynnu ar fod yn fwy effro i'r peryglon sydd ynghlwm wrth fod yn ddibynnol ar grantiau ac incwm sydd heb ei ennill a gallai'r ffactorau hyn guddio elfennau aneffeithiol yn y sefydliad.

Ystyrir bod grantiau a dderbynnir gan yr undebau credyd ynghyd â rhoddion a chymorth ariannol allanol arall yn "incwm arall". Mae PEARLS yn cyfrifo cymhareb incwm arall yn gyfran o'r asedau (R11) ac yn argymhell mai'r nod yw isafu'r incwm arall er mwyn sicrhau y cynhyrchir y costau o'r busnes ei hun.

Yn Ffig 2.3 isod, gosodwyd y gymhareb costau gweithredu yn erbyn y gymhareb incwm grantiau yn 2007 (R11) ar gyfer pob un o'r 22 undeb credyd y mae'r data hyn ar gael ar eu cyfer. Mae'n ddigon amlwg bod incwm grantiau allanol yn gwrthbwysu costau gweithredu uchel yn rhyw 40% o'r undebau credyd. Bydd yr undebau credyd sydd heb incwm allanol yn tueddu i gadw eu costau gweithredu yn isel. Yr her i'r undebau credyd yng Nghymru sydd wedi ehangu eu busnes drwy ddefnyddio cymorth ariannol allanol fydd tynnu'r costau gweithredu i lawr yn gyfran o'u hasedau er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy yn y tymor hir.



Ffig 2.3: Sut y mae'r incwm grantiau yn gwrthbwysu costau gweithredu uchel undebau credyd yng Nghymru (ffigurau 2007)

Mae adeiladu cronfeydd statudol neu gyfalaf y sefydliad yn weithgaredd allweddol, ac mae PEARLS yn cynnig ffordd o fesur digonolrwydd yr enillion a'r gallu i adeiladu er mwyn gwneud hyn (R12). Mae'n mesur yr incwm net wedi talu'r holl gostau, treuliau a thaliadau dididend ar gynilion. Dylai'r gymhareb fod yn ddigon i godi cyfalaf net y sefydliad yn gyfran o'r asedau cyfan i 10%. Mae ffigur positif yn dangos gallu'r undeb credyd i adeiladu cyfalaf. Gallai ffigur negyddol fod yn dangos bod yr undeb credyd yn rhedeg ar golled.


Yn 2007, roedd incwm net positif gan 68% o'r 22 undeb credyd. Roedd y 22% arall ag incwm net negyddol yn rhedeg o bosib ar golled dros y flwyddyn. Er y gallai fod amgylchiadau lleol penodol yn gyfrifol am hyn, bydd angen i'r undebau credyd hyn ystyried eu sefyllfa o ddifrif os nad oedd incwm net positif wedi'i gynhyrchu eto yn 2008.

Liquidity / Hylifedd

Mae cynnal cronfeydd arian hylifol digonol yn rhan allweddol o reoli ariannol sicr, ac mae'r dangosydd hwn (L1) yn mesur pa mor ddigonol yw'r cronfeydd arian hylifol o ran boddhau ceisiadau i godi arian ac i dalu'r holl rwymedigaethau talu yn y tymor byr (sydd i'w talu o fewn llai na 30 diwrnod). Targed cymhareb PEARLS yw i hyn fod rhwng 15-20% o'r holl adneuon cynilo. Mae hyn yn cymharu â gofyniad yr FSA bod rhaid i undeb credyd "ar bob adeg ddal asedau hylifol y mae eu gwerth yn hafal i o leiaf 5% o gyfanswm ei rwymedigaethau perthnasol" (10% ar gyfer undebau credyd Fersiwn 2 - er nad oes dim un o'r rhain yng Nghymru).³⁶

Mae cyfanswm y rhwymedigaethau perthnasol yn gynilion sy'n cael eu "trin yn rhai y gellir eu codi ar unrhyw adeg", ac nid ydynt wedi'u rhewi am eu bod ynghlwm wrth fenthyciadau sy'n ddyledus, cynilion plant a rhwymedigaethau eraill sydd â chyfnod ad-dalu gwreiddiol neu ar-ôl o lai na dri mis. Mewn gwirionedd, mae gofynion hylifedd yr FSA yn is o lawer na rhai PEARLS.

Yn 2007, o'r 22 undeb credyd llwyddodd 100% i gyrraedd safon yr FSA ar gyfer hylifedd a gwnaeth 91% yn well na tharged PEARLS o ddal 15-20% o asedau fel cronfeydd hylifol. 95% yn y ddau achos yw'r ffigurau ar gyfer 2005. Yn 2007, roedd cymhareb hylifedd o fwy na 50% gan 45% o'r undebau credyd, o'i gymharu â 32% yn 2005. Mewn nifer o enghreifftiau, mae'n debygol bod hyn yn ganlyniad i agweddau gor-ofalus tuag at fenthycia a/neu anawsterau wrth adeiladu'r portffolio benthyciadau. Fodd bynnag, mae lefel uchel yr asedau mewn undebau credyd Cronfa Twf Cynhwysiant Ariannol yn debygol o fod o ganlyniad i adneuon DWP sydd heb eu rhoi ar fenthycy i'r aelodau eto. Yn 2007, un undeb credyd yn unig oedd heb ddigon o hylifedd, yn ôl safon PEARLS, ac roedd hynny yn ddi-os oherwydd ei fod yn adeiladu'r portffolio benthyciadau. Gweler Ffig 2.4 i gael dadansoddiad llawn.



Ffig 2.4: Asedau Hylifol / Cyfanswm yr Adneuon


³⁶ Mae FSA CRED 9 yn cyfeirio at y gofynion o ran hylifedd. FSA CRED yw llawlyfr yr Undebau Credyd, sy'n amlinellu'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer undebau credyd, gweler <http://fsahandbook.info/FSA/html/handbook/CRED>

Yr aelodaeth yn tyfu

Mae'r safonau olaf yn edrych ar fesurau gwahanol o ran y twf, y gallu i wneud elw a mwy o botensial i fod yn gynaliadwy. Un o'r ddwy gymhareb sy'n helpu i ddangos twf yr undebau credyd yng Nghymru yw'r cynnydd yn nifer yr aelodau (S10). Mae'r gymhareb hon yn mesur y twf yn yr aelodaeth yn y flwyddyn hyd heddiw. Targed PEARLS yn rhyngwladol yw sicrhau cynnydd blyneddol o fwy na 15%. Ym Mhrydain mae gan ABCUL darged twf awgrymedig o 12% y maen nhw'n ei ystyried yn fwy tebygol.

O edrych ar y ffigurau ar gyfer yr holl wybodaeth a goladwyd ar gyfer 2007 (27 undeb credyd), gwnaeth 48% yn y grŵp yn well na'r 12% o ran twf a thyfodd 37% fwy na 15%. Dylid nodi i sawl undeb credyd twf uchel gael aelodau newydd am iddynt uno yn hytrach na thrwy recriwtio aelodau newydd.

Mae'r data cymharol rhwng 2005 a 2007 yn ddefnyddiol er mwyn gweld y newid yn nifer yr aelodau. Nid oes ond 17 set o ddata cyflawn ar gael ac mae Ffig. 2.5 yn dangos canran y twf dros y ddwy flynedd.




Ffig 2.5: Twf aelodaeth yr undebau credyd mewn canrannau- 2004/05 a 2006/07

Yn 2007, roedd dau undeb credyd oedd ond yn gallu cynnal y gyfradd dwf ar lai na 3% a cholodd un undeb credyd fwy na 30% o'i aelodau, yn ôl pob tebyg drwy dynnu aelodau segur oddi ar ei lyfrau. Ond gellir sylwi yn Ffig. 2.5 fod cyfradd dwf yr aelodaeth wedi arafu yn 9 o'r 17 undeb credyd y mae data ar gael ar eu cyfer. Mae'r cyfraddau twf yn codi yn 8 o'r undebau credyd.

Mae'r gymhareb twf olaf yn mesur twf yr asedau cyfan yn y flwyddyn hyd heddiw (S11). Y nod yw sicrhau cyfradd dwf flynyddol o 10% + chwyddiant. Amcangyfrifir y bydd ar 12% ar gyfer 2007. Mae Ffig 2.6 yn dangos bod rhywfaint o dwf sylweddol yn yr asedau, ond mae'n bwysig nodi o safbwynt undebau credyd Cronfa Twf Cynhwysiant Ariannol fod adneuo arian allanol yn yr undeb credyd yn codi'r gymhareb hon. Mae hyn yn esbonio'r cynnydd mawr mewn rhai undebau credyd.

O'r 17 undeb credyd yr oedd data 2005 a 2007 ar gael ar eu cyfer, gwnaeth 14 ohonynt yn well na tharged twf asedau PEARLS.



Ffig 2.6: Canran blynyddol twf asedau'r undebau credyd - 2004/05 a 2006/07

Crynodeb o'r data

Mae a wnelo nifer o'r ffactorau llwyddiant allweddol sy'n gyffredin a nodwyd yn adran gyntaf yr adroddiad â rheoli ariannol. Amlinellir y rhain ynghyd â chrynodeb o'r prif ddangosyddion a'r mesurau allweddol ym Mluch 2.1.

Blwch 2.1: Dangosyddion PEARLS allweddol o berfformiad undebau credyd Cymru 2005 a 2007
Darpariaethau dyledion gwael - Roedd darpariaeth ddigonol gan fwy na 90% o'r undebau credyd yn erbyn dyledion gwael yn 2007 (P2). - Ond gwelodd 59% ostyngiad yn y ddarpariaeth fenthyciadau o 2005. Solfedd - Cyrhaeddodd 27% o'r undebau credyd safon solfedd PEARLS yn 2005 a 2007. - Roedd gan bob un o'r undebau credyd werth net positif yn 2007, yn well na'r 95% yn 2005 (P6). Cymhareb benthyciadau:asedau - Yn 2007, roedd maint yr arian oedd ar fenthg yn is na'r targed yn 64% o'r undebau credyd (E1). Ni wnaeth ond 9% o'r undebau credyd gyrraedd neu wella ar y safon benthyciadau:asedau yn 2007 (40% yn 2005). Roedd canran yr asedau oedd ar fenthg wedi gostwng yn 36% o'r undebau credyd rhwng 2005 a 2007. Adneuon cynilo / cyfanswm yr asedau - Cyllidir yr undebau credyd yng Nghymru yn bennaf drwy gynilion ac nid drwy grantiau o gronfeydd allanol ar gyfer y gwaith benthg ymlaen. Yn gyffredinol cymhareb gyfartalog cynilion:asedau yw 81% (E5). Cyfalaf y sefydliad - Roedd cymhareb cyfalaf asedau oedd yn uwch na 5% gan 41% o'r undebau credyd yn y grŵp. - Roedd cymhareb cyfalaf asedau oedd yn uwch na 3% gan 70% o'r grŵp. - Cyrhaeddodd 10% o'r undebau credyd yn y grŵp safon cyfalaf sefydliad rhyngwladol PEARLS o 10% yn 2007 (dim un ohonynt yn 2005) (E8). Benthyciadau tramgwyddus 23% yn unig o'r grŵp gyrhaeddodd y safon ar gyfer tramgwyddo (41% yn 2005) (A1). - Y gymhareb ganolrif am ddyledion gwael yn y grŵp yn 2007 oedd 7.75%, oedd yn well na'r 7.14% yn 2005. - Yn 2007, roedd cymarebau dyledion gwael gan 41% o'r undebau credyd, oedd yn fwy na dwywaith cymhareb darged argymelledig PEARLS. Costau gweithredu - Yn 2007, roed y costau gweithredu yn uchel. 3 undeb credyd yn unig a gyrhaeddodd safon y gymhareb gostau (R9). - Mewn tua 40% o'r grŵp, roedd incwm grantiau'n gallu cydbwysu'r costau gweithredu uchel. Incwm net - Roedd incwm net positif gan 68% o'r grŵp o undebau credyd yn 2007 (R12) sy'n dangos bod ganddynt y gallu i dyfu yn sefydliadau ariannol diogel a sicr. Hylifedd - Cyrhaeddodd 100% o'r undebau credyd safon hylifedd yr FSA yn 2007. - Gwnaeth 91% yn well na tharged 15-20% PEARLS o'i gymharu â 95% yn 2006 (L1). - Roedd gan 45% o'r undebau credyd gymhareb hylifedd o fwy na 50%. - Roedd hylifedd un undeb credyd yn annigonol, y rheswm pennaf mae'n debyg oedd ei fod yn adeiladu'r portfolio benthyciadau.

Nifer yr aelodau'n codi

- Yn 2007, tyfodd 55% o'r undebau credyd yn y grŵp fwy na 10% a thyfodd 37% fwy na 15% (S10).
- Yn 2007, er i'r gyfradd aelodaeth arafu, ond dau o'r undebau credyd dyfodd llai na 3%.


Yr asedau'n tyfu

- Cyrhaeddodd 14 o'r 17 undeb credyd y safon ar gyfer asedau'n tyfu neu'n well yn 2007.

Ymhlith yr elfennau a welir yn natblygiad llwyddiannus yr undebau credyd i'w nodi yma mae:

- Bod â sgiliau a chymwyseddau ariannol a rheoli ym mhob rhan o'r undeb credyd
- Gweithdrefnau llywodraethu cadarn
- Rheoli a gweithredu effeithlon a disgyblaeth ariannol
- Datblygu model busnes cynaliadwy
- Cydbwysedd rhwng nodau cymdeithasol a nodau ariannol
- Cymorth ariannol wedi'i dargedu a chymorth technegol (fel y'u gwelir yn ymyriadau WOCCU)
- Seilwaith cefnogol (megis cymdeithasau masnach, asiantaethau datblygu)
- Arolygiadau allanol a chefnogol a gwaith archwilio'r systemau gweithredol ac ariannol fel y'u gwelir yn y system yng Nghnada.

Yn ogystal â defnyddio data PEARLS i feincnodi ar draws undebau credyd, mae PEARLS yn rhoi proffil o'r perfformiad unigol hefyd. Y rheswm yw y gallai undeb credyd ganolbwyntio ar berfformiad da mewn un neu ddau faes yn hytrach na pherfformiad "cyfan" ar draws y dangosyddion i gyd. Felly mae dadansoddiad PEARLS yn cynnig cyfle defnyddiol i bwysu a mesur perfformiad ac archwilio'r dangosyddion allweddol. Dwedwch, er enghraifft, ein bod yn edrych ar un o'r undebau credyd yn ein sampl sydd â nifer gweddol dda o aelodau, gallwn weld proffil ei berfformiad drwy fapio dangosyddion allweddol PEARLS - gweler Ffig 2.7.



Ffig 2.7 Proffil PEARLS ar gyfer undeb credyd sampl

Drwy edrych yn gyflym ar Ffig 2.7, gallwn weld bod yr undeb credyd hwn yn gweithio'n dda tuag at rai o'r dangosyddion allweddol (P2, E1, E5, L1, R11 ac S10). Ond mae angen edrych ar rai meysydd yn fwy gofalus i gael gweld pam, er enghraifft, mae nodau solfedd P6, oedd yn cyrraedd eu targed yn 2005, erbyn hyn wedi llithro o dan yr 111% a argymhellir (er y dylid nodi bod y gwerth net positif yn dal i fod yn uwch na 100%). Ymhlith y meysydd eraill y mae angen edrych arnynt mae: costau gweithredu (R9); benthychiadau tramgwyddus (A1 - cynnydd oddi ar 2005); incwm net / asedau cyfartalog (R12) a chyfanswm yr asedau (S11). Mae'r ffigurau'n rhoi llwyfan i drafodaethau a phenderfyniadau strategol ac mae'n bosib y gallir eu hesbonio drwy ystyried amgylchiadau neu ddigwyddiadau penodol fel y gwelwyd yn sylwebaeth gynharach PEARLS. Efallai bod y proffil yn dangos bod angen

ymyrryd a bod â champau gweithredu wedi'u targedu er mwyn dod â'r undeb credyd nôl ar y trywydd iawn a chefnogi datblygiad parhaol.

Yr hyn y mae profiadau undebau credyd yn rhyngwladol a dadansoddiad cymarebau PEARLS yn ei ddangos yw bod diffinio a deall "llwyddiant" undebau credyd yn beth amlweddol: byddwn yn edrych ar y ffactorau llwyddiant a'r heriau i'r undebau credyd yng Nghymru yn yr adran nesaf.

Proffil Undeb Credyd: Undebau credyd cyflogeion-seiliedig yng Nghymru

Mae 4 undeb credyd y cewch fod yn aelod ohonynt am eich bod yn gweithio i gyflogwr arbennig ac 1 lle mae aelodaeth yn seiliedig ar fod yn aelod o sefydliad arall. Mae undebau credyd i gyflogeion yn aml yn derbyn cefnogaeth o fathau penodol gan gyflogwyr, megis swyddfeydd, mynediad i gyfleusterau didynnu cyflog a chyfleoedd i ymweld â gweithleoedd. Hyd yn hyn dewisodd pob un ohonynt lynu at fodel traddodiadol o gynilo a rhoi benthyg ac nid ydynt wedi dilyn agenda o ychwanegu at eu gwasanaethau na chwaith wedi ymwneud â chynlluniau grantiau'r llywodraeth neu grantiau eraill. Y mwyaf o'r rhain yw:

- Undeb Credyd Plaid Cymru (ar gyfer aelodau o'r Blaid a'u teuluoedd) sydd â 520 o aelodau;
- Undeb Credyd Transave, a
- Undeb Credyd y Penny Post (ar gyfer gweithwyr post yn Ngorllewin Canolbarth Lloegr a Chymru) sydd â 362 o aelodau yng Nghymru.

Er mwyn denu aelodau newydd mae'r undebau credyd i gyflogeion yn dibynnu ar gynrychiolwyr yr undebau llafur, gweithdrefnau sefydlu ar gyfer staff newydd ac ymweliadau achlysurol â gweithleoedd gan eu staff, ac mae Plaid yn dibynnu ar gyfuniad o argymhellion llafar a llythyru cyson â'u haelodau. Mae'r sefydliadau yma i gyd yn rhai sydd â gwreiddiau cryf ac sy'n hunan-gynhaliol yn ariannol. Mae eu haelodaeth yn tyfu'n raddol ac mae cysylltiad buddiant cryf rhwng eu haelodau ac maent yn ystyried bod y gwasanaeth a gânt yn un sy'n safonol ac yn bersonol. O ran y newid a arfaethir i Undeb Credyd Plaid Cymru, y mae posibilrwydd y bydd yn ehangu'r cwlwm cyffredin er mwyn cynnwys cenedlaetholwyr o Gernyw a'r Alban ac yn cynnig aelodaeth i ganghennau lleol o'r blaid yn ogystal ag i unigolion.

Mae Transave yn undeb credyd i gyflogeion y cwmni bysiau a threnau First Group PLC sy'n fawr ac sy'n gweithredu ar draws y DU. Mae cyfanswm ei aelodau dros 7,000. Yng Nghymru mae'r cwmni'n cyflogi 1,000 o bobl ac mae 492 o'r rheiny'n aelodau o'r undeb credyd ar hyn o bryd. Yr undeb credyd hwn sydd â'r canran uchaf o aelodau o blith eu sefydliad drwy Gymru gyfan, a chyflawnwyd a chynhaliwyd hyn ar sail nifer o weithgareddau y gallai pob undeb credyd eu dynwared cyhyd a bod cyflogwyr eu haelodau'n barod i weithredu didyniad cyflog. Pryd bynnag y bydd gweithiwr newydd yn ymuno â First, cyfeirir at yr undeb credyd yn ystod y broses sefydlu. Atgyfnerthir hyn gan swyddogion yr undebau llafur ym mhob gweithle a byddant hwythau'n ceisio recriwtio aelodau i'r undeb credyd ar yr un pryd ag y bydd y rheiny'n ymaeloddu â'r undeb, a hefyd bydd staff Transave yn rhoi cyflwyniadau'n achlysurol yn y gweithle. Mae lefel ragorol y gwasanaeth yn golygu bod y negeseuon cadarnhaol a roddir gan y rheolwyr a'r undebau yn cael eu hatgyfnerthu ar lafar ymhlith y cydweithwyr.

3. Ffactorau llwyddiant a heriau o ran cyflawni cynnaladwyedd a thwff

Yn ogystal â'r dimensiynau a adnabuwyd oddi wrth fudiad rhyngwladol yr undebau credyd a'r dangosyddion ariannol allweddol drwy PEARLS, adnabuwyd y ffactorau llwyddiant allweddol canlynol gan aelodau, cyflogeion ac aelodau byrddau'r undebau credyd yn ystod cyfnod grŵp ffocws yr ymchwil:

- Lefelau uchel o ymddiriedaeth rhwng yr undebau credyd a'u cymunedau lleol;
- Lefel yr aelodaeth yn uchel o'i chymharu â maint y cwlwm cyffredin;
- Ffocws ar fenthycia arian yn ogystal ag ar derbyn adneuo;
- Dull strategol sy'n canolbwyntio ar nodau wrth ystyried datblygiad polisi, er enghraifft SGEIs, sy'n cymryd amcanion busnes yr undeb credyd ei hun i ystyriaeth;
- Agweddau proffesiynol ac entrepreneuraidd ymhlith rheolwyr yr undebau credyd;
- Cefnogaeth gan yr awdurdod lleol, lle mae'n bosib ei gael, a allai helpu hefyd i fod yn gefn i lwyddiant yr undeb credyd.

Mae'r adran hon yn archwilio'r cyfleoedd a'r heriau o safbwynt twf a chynnaladwyedd yr undebau credyd yng Nghymru, yn benodol: diffinio rôl a chynnaladwyedd, gan gynnwys rôl yr undeb credyd yn y broses o ymladd yn erbyn eithrio ariannol; "dilema moderneiddio"; rheoli perfformiad; meithrin gallu; a'r ddelwedd a'r brand.

3.1 Tyndra o ran Diffinio rôl a Chynnaladwyedd Ariannol

Mae'r undebau credyd yn wynebu tyndra anodd rhwng eu rôl yn fusnes cydweithredol a'u "cenhadaeth" sef darparu gwasanaethau ariannol i aelodau o'r gymdeithas sydd wedi'u cau allan o'r system fancio brif-ffrwd ac o wasanaethau ariannol. Fel yr esboniodd un ymatebwr:

Mae'n amlwg bod tyndra rhwng bod am [i'r undebau credyd] fod yn ddichonol yn ariannol a'r awydd iddynt fod yn gallu cynnig gwasanaeth i'r bobl fwyaf tlawd, nad ydynt yn gallu cynilo digon i'w gynnal. Felly, os ydych yn teimlo'n wirioneddol eich bod am dargedu'r mwyaf anghenus drwy gynnig y gwasanaeth hwn, bydd rhaid i chi ei gefnogi i ryw raddau. (Cyfarwyddwr Undeb Credyd)

Ac yn ogystal, fel y pwysleisiodd un rhanddeiliad allweddol, nid yr un rheswm sydd gan bob person dros ymuno ag undeb credyd:

Yn y bôn, mae undebau credyd yno i roi mynediad i wasanaethau ariannol i bawb, ond yn benodol maent yno ar gyfer y bobl hynny na allant gael mynediad yn hawdd i wasanaethau ariannol prif-ffrwd. Rwy'n gyfarwyddwr undeb credyd ers 12 mlynedd a mwy, felly rwy'n ymwybodol iawn o'r mathau o bobl y bydd yr undebau credyd yn eu denu; fynychaf mae 65-70% o'r aelodau ar incwm isel. Nid oes *rhaid* i'r 30-35% arall fod yn aelodau o undeb credyd, ond dyna yw eu *dewis*, yn hytrach na bod â chyfrif banc. Mae angen y ddau fath o bobl ar yr undebau credyd - pobl sy'n tueddu i gynilo ond pobl hefyd sy'n fwy tueddol o fenthycia, gan mai dyma'r unig ffordd y gall yr

undebau credyd gynhyrchu incwm i gael bod yn gynaliadwy. Mae'r undebau credyd yno i bawb, ond mae ganddynt farchnad darged glir, sy'n wahanol i farchnad darged y banciau a'r cymdeithasau adeiladu. (Cyfarwyddwr Undeb Credyd)

Mae'r ddau ddyfyniad hyn yn amlygu'r angen i gael cydbwysedd rhwng y nodau cymdeithasol a'r nodau economaidd a chydbwysedd rhwng anghenion yr aelodau a gyrwyr economaidd ac ariannol. Maent yn galw ein sylw at y tyndra rhwng defnyddio cyllid oddi wrth y llywodraeth ac o fannau eraill i godi nifer yr aelodau neu'r gwasanaethau, tra'n cadw golwg ar sefydlogrwydd ariannol parhaol a chynnaladwyedd y busnes. Yng ngeiriau un lluniwr polisi yn Llywodraeth y Cynulliad:

... Dw i ddim yn credu y dylem fod yn edrych ymlaen at gyfnod lle y bydd y llywodraeth yn gorfod cefnogi'r undebau credyd yn barhaol, ond rwy'n credu ein bod ymhell o'r cyfnod pan fyddwn yn gallu eu torri'n rhydd. (Lluniwr polisi, Llywodraeth y Cynulliad)

Roedd un o'r pryderon a fynegwyd gan rai yn gysylltiedig â chronfeydd cyhoeddus yn cael eu buddsoddi mewn sefydliadau ariannol sydd ag aelodau "digon cefnog" hefyd. Fodd bynnag, cydnabyddir gan yr undebau credyd fod y graddau y mae eu sefydliadau'n ddichonol yn dibynnu ar gydbwysedd yr aelodaeth rhwng aelodau mwy cyfoethog a mwy tlawd, a rhwng cynilwyr a benthycwyr, a chydabyddir ymhlith llunwyr polisïau y bydd undebau credyd yn parhau i ddibynnu ar gronfeydd allanol i gefnogi rhai agweddau o'u gweithredoedd yn y dyfodol agos.

Awgrymodd rhai ymatebwyr fod rhai undebau credyd yn un o nifer o sefydliadau cyhoeddus neu wasanaeth dynol (e.e. Cyngor Ar Bopeth, cymdeithasau tai, asiantaethau datblygu lleol, asiantaethau tai a digartrefedd) sy'n gweithio i gwrdd â thargedau agenda cymdeithasol ac economaidd. Roeddent yn cydnabod, gan fwyaf, nad yw'r gwaith hwn yn cynhyrchu incwm. Fel y cyfryw, gallai fod yn bosib rhoi cyfrif am y gwaith hwn ar wahân (megis drwy gostio a chyfrifo sy'n seiliedig ar weithgaredd) ac yna gallai hwn fod yn rhan wedi'i chymorthdal o weithgareddau cyfan yr undeb credyd, fyddai ar wahân ond yn cyfrannu ar yr un pryd i'r prif waith o fod yn gydweithfa ariannol ddichonol.

Proffil Undeb Credyd: Undeb Credyd y Llechen Cyfyngedig (Caernarfon ac Ynys Môn)

Sefydlwyd Undeb Credyd y Llechen Cyfyngedig yn 2000, yn dilyn ffurfio'r Grŵp Astudio gwreiddiol o bobl weithredol yn y gymuned leol ym Mangor yn 1997. Y cwlwm cyffredin gwreiddiol oedd pobl oedd yn byw ac yn gweithio ym Mangor a'r cyffiniau ond erbyn hyn mae'n cynnwys Ynys Môn a Gwynedd i gyd. Mae'r cwlwm cyffredin yn cwmparu poblogaeth o 187,400 ar draws 3,262 Km². Mae adeiladu cronfa o aelodau yn amlwg yn brif dasg ac mae'r Bwrdd a'r staff yn llawn gydnabod hyn. Mae'r Llechen yn gymharol newydd ac mae'n darparu ar gyfer ardal sy'n anodd yn ddaearyddol, lle y mae dwysedd y boblogaeth yn isel, heb yr un dref fawr, cymuned ynys sydd felly ar wahân a llawer o bobl sydd wedi'u cau allan yn ddaearyddol am fod y cludiant cyhoeddus yn wael. Hefyd, mae'n ardal sy'n ddwyieithog iawn ac mae darparu ar gyfer anghenion y ddwy iaith yn ychwanegu baich costau gweinyddol, yn ogystal â'i gwneud yn fwy anodd marchnata. Mae'r undeb credyd yn gweithredu o hen siop ar rent, mae'n cyflogi 3 aelod o staff ac mae ganddo 71 o wirfoddolwyr sy'n staffio'r siop ac yn rhedeg yr 8 pwynt casglu ar draws yr ardal. Derbyniodd y Llechen £232,124 ar ffurf grantiau yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, sy'n gyfwerth â £300.29 yr aelod, sy'n uwch o dipyn na'r cyfartaledd yng Nghymru (£77.82). Mae ganddo 773 aelod gweithredol sy'n cynrychioli'r ymdreiddiad isaf ond un i'r farchnad yng Nghymru ar 0.52%. Derbyniodd y Llechen gymorth ariannol sylweddol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, derbyniodd yr undeb credyd fwy na £230,000.

3.2 Darparu ar gyfer Cymunedau Mwyaf Tlawd Cymru

Mae llawer o'r undebau credyd yng Nghymru yn cynnig gwasanaethau mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd a lle y bydd pobl yn byw ar incwm isel. Mae pob un o'r 100 o ardaloedd mwyaf difreintiedig a nodwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008 o fewn un neu fwy o ardaloedd cwlwm cyffredin undeb credyd. Nid oes gwybodaeth ar gael ynglŷn â'r gyfradd aelodaeth go iawn yn yr ardaloedd hyn ar hyn o bryd (neu maent heb eu cofnodi gan yr undebau credyd). Mewn adolygiad diweddar ar ran Trysorlys Ei Mawrhydi a wnaed gan Experian³⁷, Undeb Credyd Llandudno oedd yr unig un a adnabuwyd yn un oedd yn gwasanaethu'r rhai oedd wedi'u cau allan yn ariannol, ar hyn o bryd. Ond dylid nodi fod yr adolygiad yn dechrau drwy dybied bod y Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol yn ddangosydd cymhwysedd cadarn ac felly mae'r pwysiad o blaid yr undebau credyd hynny sydd wedi bod yn rhan, neu fu'n barod i fod yn rhan o'r gronfa twf.

Ar hyn o bryd, mae ardal cwlwm cyffredin Llandudno yn ymestyn ar draws un ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is adnabyddedig³⁸ (LSOA), sydd yn cael ei gosod, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008, yn 44ydd â sgôr amddifadedd gyffredinol o 60.6. Gallwn gymharu'r sgôr yma ag Undeb Credyd Casnewydd y rhoddodd Experian raddfa o 0 iddo (heb fod yn cynnig gwasanaeth i'r rhai sydd wedi'u cau allan yn ariannol). Mae gan Undeb Credyd Casnewydd 7 LSOAs yn ei gwlwm cyffredin ac mae 4 ohonynt yn cael eu gosod yn uwch ar y rhestr na safle 44 (22, 31, 36 a 41). Mae Undeb Credyd Arfordir Clwyd yn gwasanaethu 5 o'r 100 LSOA mwyaf difreintiedig, y mae 3 ohonynt yn y 5 ardal fwyaf difreintiedig (sef 1, 4 a 5). Graddiwyd Clwyd ar lefel 3 gan Experian: "ar hyn o bryd mae'n cynnig gwasanaeth i'r rhai sydd wedi'u cau allan yn ariannol, a gallai hyn gynyddu". Yr undeb credyd arall y rhoddwyd y raddfa hon iddo yng Nghymru oedd Dragonsavers, sy'n gwasanaethu 12 o'r LSOAs, y mae 3 ohonynt yn y 20 ardal fwyaf difreintiedig (rhif 10, 12 ac 16). Gallai Undeb Credyd Caerdydd - sy'n cynnwys Bro Morgannwg erbyn hyn - fod yn gwasanaethu'r nifer fwyaf o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru (h.y. 19 o'r 100 LSOA uchaf) a rhoddwyd graddfa '1' iddo gan Experian â'r sylwad bod ganddo "rhywfaint o botensial o ran gwasanaethu'r rhai sydd wedi'u cau allan yn ariannol". Efallai bod y raddfa hon yn adlewyrchu'r ffaith bod Undeb Credyd Caerdydd yn canolbwyntio ar ddidyniadau cyflog a'u bod heb leoliad 'siop' yn hytrach na'r ardaloedd daearyddol sy'n ddalgylch iddynt. Ond gallai'r sefyllfa hon newid gan eu bod ynghyd â Chartrefi Cymunedol Cymru bellach yn datblygu cynlluniau benthyca fforddiadwy yng Nghymru.

Mae llawer o'r undebau credyd yng Nghymru wedi bod yn rhan o Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol y DWP a hynny'n rhan o'u cenhadaeth i fynd i'r afael â phroblem eithrio ariannol. Mae hyn yn golygu heriau arbennig i'r undebau credyd o ran galwadau rheoli a gweinyddu newydd, defnyddio systemau newydd a datblygu sgiliau newydd wrth weithio gyda gofynion aelodau newydd. Nid yw rhai o'r aelodau newydd a ddaeth i'r undebau credyd drwy'r Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol yn rhai a fydd yn aelodau gweithredol o raid a'r duedd yw iddynt fod yn rhai sydd â llai o allu i reoli eu harian. Weithiau ystyriwyd bod hyn yn effeithio'n negyddol ar y busnes.

³⁷ Trysorlys EM (2007), Review of the GB cooperative and credit union legislation: a consultation. Trysorlys EM, Llundain

³⁸ Mae LSOA yn ardal ddaearyddol â phoblogaeth o ryw 1,500 a ddefnyddir at amcanion ystadegol. Rhoddir enwau megis Gogledd Castell Nedd 2, neu Gorrlewin y Rhyl 1 ar yr ardaloedd

Awgrymwyd gan un ymatebwr y “gallai problemau godi mewn unrhyw sefydliad ariannol pe bai nifer anghyfartal o fawr o'r aelodau yn 'bobl y Gronfa Twf'”. Er nad ydynt yn 'bobl y Gronfa Twf' fel y cyfryw bob amser, gall amgylchiadau cymdeithasol economaidd aelodau'r undebau credyd effeithio ar eu dichonolrwydd, ac mae cydbwysedd yr aelodau ar draws pob un o'r grwpiau incwm yn un o'r dimensiynau allweddol a adnabuwyd eisoes er sicrhau aelodaeth sy'n weithredol ac undeb credyd sy'n gynaliadwy.

Pwysleisiodd ymatebwyr eraill yr angen am hyfforddiant a sgiliau cyngor arbenigol wrth ddelio ag aelodau bregus cymuned, megis yr aelodau hynny a gâi eu recriwtio drwy fenthyciadau'r Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol – sgiliau sy'n fwy na gofal sylfaenol am y cwsmer a gwasanaethau o safon ar gyfer yr aelodau. Testun pryder i'r ymatebwyr hyn oedd y ffaith ei bod yn bosib nad yw'r undebau credyd yn iawn ddeall gymaint o faich yw'r 'grŵp hwn o gleientiaid' na'r ffaith nad oes ganddynt y sgiliau i gynnig y gwasanaethau cyfannol a allai fod yn angenrheidiol (gan gynnwys sgiliau ar ddyled a datblygu sgiliau gallu ariannol aelodau). Mae perygl hefyd y gallai anallu'r undebau credyd i gadw rheolaeth ar eu portffolio lleol gael effaith negyddol arnynt, ac mae rhai undebau credyd wedi gweld eu dichonolrwydd yn y tymor hir a'r tymor canolig yn cael ei danseilio.

Fodd bynnag, defnyddiodd rhai undebau credyd eraill y Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol yn llwyddiannus i godi nifer eu haelodau ac i gryfhau eu sefyllfa ariannol yn gyffredinol. Llwyddodd yr undebau credyd hyn i integreiddio'r Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol i'w strategaeth fusnes gyffredinol, a hefyd i reoli'n effeithiol y gwaith dydd i ddydd o ddarparu benthyciadau Cronfa Twf Cynhwysiant Ariannol, gan sicrhau bod gweithdrefnau benthycia ac adennill benthyciadau da yn eu lle.

Beth bynnag, mae angen parhau i ddefnyddio dulliau trylwyr i gael gwerthuso a rheoli'r gwaith gweinyddu a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith prosiect ac allgymorth.

Adnabuwyd amrywiolion allweddol gan yr ymchwiliad sy'n effeithio ar gryfder ariannol ac ymdreiddiad i'r farchnad y gwahanol undebau credyd. Er enghraifft, yn Wrecsam mae'r Undeb Credyd wedi tyfu'n sylweddol er nad yw'n derbyn adneuo neu'n caniatáu i neb godi arian mewn arian parod. Ym Margoed, mae ymdreiddiad yr undeb credyd i'r farchnad yn uchel ond heb fawr o bwyntiau casglu. Yn Llandudno ac Arfordir Clwyd, defnyddiodd yr undebau credyd y Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol i gynnig benthyciadau cyflym ar lefelau risg uwch a bu'r ymdreiddiad i'r farchnad yn rhagorol a'r benthyciadau tramgwyddus yn isel, er bod yr ardal yn un ddifreintiedig iawn. Ym Mluch 3.1 gwelir yr amrywiolion allweddol a adnabuwyd a chymerir y rhain â ffactorau llwyddiant cyffredin.

O ystyried y newidiadau sy'n digwydd yn sector y gwasanaethau ariannol yn y DU - gwladoli banciau, meini prawf benthycia mwy llym, a chyfraddau llog isel - mae angen i'r undebau credyd barhau i fod yn rhan o ystod gynyddol o wasanaethau sy'n darparu ar gyfer unigolion a chymunedau incwm isel a rhai sydd wedi'u heithrio'n ariannol ac mae'r rôl honno yno o hyd. Dangosodd nifer o'r undebau credyd ddiddordeb yn y Porth Cynilo yn ffordd o sefydlu cynllun cynilo wedi'i gymorthdalu gan y llywodraeth ar gyfer y bobl hynny sydd ar gyflog bach neu sydd ar fudd-daliadau penodol.

Blwch 3.1 Amrywiolion allweddol sy'n effeithio ar gryfder ariannol ac ymdreiddiad i'r farchnad	
Amrywiolion	Ffactorau llwyddiant
• Nifer a lleoliad y swyddfeydd a'r pwyntiau casglu; • Orlau agor; • Talu mewn arian neu ddulliau eraill o adneuo a chodi arian; • Integreiddio i rwydweithiau lleol; • Ymdrechion marchnata a'r dulliau a ddefnyddir; • Y trefniadau didyniadau cyflog; • Methodoleg asesu risg benthychiadau; • Defnyddio'r Gronfa Twf neu drefniadau gwarantu benthychiadau eraill; • Y defnydd ar TGCh a thechnoleg y We.	• Ehangu'r ystod cynhyrchion a'r portffolio gwasanaethau • Cwrdd ag anghenion ariannol pawb mewn cwlwm cyffredin yn hytrach na chanolbwyntio ar 'y tlodion' yn unig • Seilwaith cefnogol (megis cymdeithasau masnach, asiantaethau datblygu) • Gweithdrefnau llywodraethu sicr • Rheoli a gweithredu effeithlon a disgyblaeth ariannol • Datblygu model busnes cynaliadwy • Cydbwysedd rhwng nodau cymdeithasol ac ariannol • Cymorth technegol a chymorth ariannol wedi'i dargedu

Proffil Undeb Credyd: Undeb Credyd Dragonsavers – uno i hwyluso twf

Sefydlwyd Dragonsavers yn 1981 o dan yr enw Undeb Credyd Glyncoch. Oddi ar hynny buont yn rhan o ddwy broses uno arwyddocaol – gyda Rhydyfelin yn gynnar yn y 1990au ac yna gyda phob undeb credyd ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn 2003. Mae ei gwlwm cyffredinol yn cynnwys 12 o'r 100 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru (o'r 1,896 Ardal Cynnyrch Ehangach Is) ac ar hyn o bryd mae ganddo bron 2,200 o aelodau ar draws yr awdurdod lleol â'r boblogaeth fwyaf yng Nghymru. Mae'n ardal anodd yn ddaearyddol, yn ardal o 3 chwam mawr, ac mae'r rhan fwyaf o'r cysylltiadau trafnidiaeth yn mynd o'r gogledd i'r de, felly nid gwaith hawdd yw teithio o gwm i gwm. Mae'r UC wedi trefnu rhaglen bendant o 34 Pwynt Casglu ar draws yr ardal i gyd, a hynny ar ben y 3 swyddfa barhaol sydd ganddo. Mae'r model busnes wedi mynd nôl i fenthyca traddodiadol ar sail cynilion a disgwylir i'r aelodau gynilo am 8 wythnos cyn y cânt ddechrau benthyca. Yn ddiweddar maent wedi gwella eu gwefan i gefnogi mynediad i gyfrifon aelodau, dechrau tudalen ar Facebook, ac mae cynlluniau ar y gweill i gynhyrchu llyfryn fydd yn cael ei roi i bob cartref yn RhCT. Mae aelodau ar y Bwrdd sydd â phrofiad penodol mewn Adnoddau Dynol a Rheoli Ariannol, ac mae'r sefydliad yn cael ei arwain gan y staff yn bennaf â 4 aelod amser llawn o'r staff a 3 yn gweithio'n rhan-amser, yn ogystal â thua 100 o wirfoddolwyr rheolaidd. Ar hyn o bryd mae Dragonsavers yn gweithio mewn 2 ysgol gynradd lle mae ganddo tua 40 o gynilwyr ifanc o gyfanswm cynilwyr ifanc yr undeb credyd o 788. Mae'n adrodd bod nifer fawr o gynilwyr ifanc a gafodd eu recriwtio trwy eu rhieni/tad-cu/mam-gu yn troi'n aelodau llawn wedi tyfu'n oedolion, ac mae'n gweithio gyda Busnes mewn Ysgolion ar eu rhaglenni nhw. Mae'n derbyn nifer fach o ddisgyblion BI 12 ar brofiad gwaith hefyd. Yn y dyfodol, byddent yn hoffi codi nifer yr aelodau didyniadau cyflog yn sylweddol, a datblygu system o fynediad i beiriannau ATM ar gyfer ei aelodau. Er bod Dragonsavers wedi gadael y Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol, derbyniodd yr undeb credyd grantiau sylweddol a chyllid contractau o ffynonellau allanol, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, derbyniodd yr undeb credyd gyllid o fwy na £413,000.

3.3 Dilema Moderneiddio

Mae ail dyndra yn wynebu undebau credyd y gellir ei alw yn ddilema moderneiddio. Mae'r undebau credyd yn ymfalchïo yn y cyswllt wyneb yn wyneb sydd ganddynt â'u haelodau ac yn y ffaith eu bod yn cynnig gwasanaeth personol. Cododd yr ymadrodd 'Computer says "no"' sawl gwaith yn y grwpiau ffocws yn ffordd o fynegi natur bancio'r stryd fawr sy'n mynd yn fwy ac yn fwy amhersonol a hynny mewn cyferbyniad â'r wyneb cyfeillgar a'r dull cefnogol a ddefnyddir gan yr undebau credyd. Mae'r ymwneud hwn â'r cymunedau lleol yn ddi-os yn ddimensiwn allweddol wrth ystyried llwyddiant llawer o'r undebau credyd ac mae'n cysylltu ag adeiladu cyfalaf cymdeithasol, cydymddiriedaeth a chyfranogiad ymhlith yr aelodau. Gall gwybodaeth o gymunedau ac aelodau lleol fod yn sail ar gyfer adeiladu cysylltiadau a rhwydweithiau ehangach a gall fod yn sail hefyd i gamau gweithredu sy'n annog pobl i gynilo yn rheolaidd ac i ad-dalu benthyciadau yn eu pryd.

O ganlyniad i'r awydd i foderneiddio ynghyd a'r ffocws ar wasanaethau o ansawdd ag iddynt werth ychwanegol gwelwyd galw i'r undebau credyd weithio mewn ffordd fwy proffesiynol i wella'r ffordd y caiff y sefydliadau eu rheoli a'u llywodraethu yn gyffredinol yn enwedig y rhai hynny sy'n derbyn arian cyhoeddus neu sydd ag agenda gwasanaeth cyhoeddus. Yn ei dro bydd hyn yncysylltu a datblygu sgiliau busnes priodol o fewn yr undebau credyd (gan gynnwys symud oddi wrth wirfoddoli a defnyddio gwirfoddolwyr i gyfeiriad mwy o broffesiynoldeb a staff cyflog – er nad yw hynny'n golygu nad oes lle i'r proffesiynol a'r gwirfoddol ill dau). Gallai symud y mudiad i gyfeiriad y proffesiynol, gyda staff cyflog, ardaloedd cwlwm cyffredin mwy o faint, gan ddechrau troi cefn ar bwyntiau casglu sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr lleol, fod yn arwydd i rai aelodau fod y sefydliad yn pellhau oddi wrth y gymuned. Fodd bynnag er mwyn sicrhau digon o nifer o ran yr aelodaeth a'r sgiliau a'r asedau y mae rhaid bod â nhw er sicrhau cynladwyedd mae angen i'r undebau credyd dyfu o ran eu maint a'u datblygiad. Bydd angen iddynt wneud hynny mewn ffyrdd fydd yn cadw'r ymdeimlad o agosatrwydd i gymuned ac i werthoedd cydweithredol.

Mae angen bod pawb yn derbyn gwasanaethau a chynhyrchion ariannol mewn ffordd broffesiynol, dyna yw eu haeddiant, a hynny heb ystyried eu hincwm personol neu eu lleoliad yn ddaearyddol. Mae ymateb i'r galw hwn yn her i'r undebau credyd sydd â'u gwreiddiau yn fychan ac yn wirfoddol ond mae'n her y mae llawer yn llwyddo i'w hwynebu yn fedrus iawn. Er enghraifft mae'n debyg bod Undeb Credyd Robert Owen Sir Drefaldwyn wedi delio â'r tensiwn hwn mewn ffordd sy'n arbennig o effeithiol gan ddefnyddio gwasanaethau arloesol a chysylltiad clir â'r gymuned leol.

Proffil Undeb Credyd: Undeb Credyd Robert Owen Sir Drefaldwyn (ROMCUL) – arloesi ac arallgyfeirio

Sefydlwyd ROMCUL yn 1994 gan Swyddog Datblygu Undebau Credyd Canolfan Cydweithredol Cymru oedd yn byw yn yr ardal. Recriwtiodd 'Grŵp Astudio' gwirfoddol a weithiodd ar Astudiaeth o Ddichonolrwydd, â chyllid y Ganolfan Cydweithredol, a'u galluogodd i ymweld ag Iwerddon i ddatblygu trefniad gefeillio ag Undeb Credyd Mitchelstown. Y cod post SY oedd y cwlwm cyffredin gwreiddiol ac, ar hyd y blynyddoedd, lledodd yr ardal i gynnwys yr hen Sir Drefaldwyn i gyd, sef mwy na hanner sir bresennol Powys. Derbyniodd ROMCUL fwy na £79,000 mewn grantiau oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, sy'n llai o arian yr aelod na'r undebau credyd eraill yng Nghymru (£46.19 yr aelod yn erbyn cyfartaledd Cymru o £77.82). Bu'n cymryd rhan weithredol yn y Gronfa Dwf, ac mae wedi dechrau datblygu nifer o wasanaethau arloesol ar gyfer ei aelodau drwy weithio gyda: Nwy Prydain i gynnig gwasanaeth 'Monergy', sef cyngor ar dlodi tanwydd a chyllidebu; Cyngor Sir Powys i gynnig cynllun gwarantu rhent i gynorthwyo tenantiaid y sector preifat; ac mae wedi lansio Menter Cyllid Datblygu Cymunedol cysylltiedig – Partneriaeth Bancio Cymunedol Robert Owen, sy'n rhan o fenter a ddatblygwyd gan NACUW (National Association of Credit Union Workers), NEF (New Economics Foundation) ac RSN (Rebuilding Society Network) mewn 7 lleoliad braenaru ar draws y DU. Mae'r Partneriaeth Bancio Cymunedol yn galluogi aelodau ROMCUL i gael mynediad i wasanaeth talu biliau ar y cyd â Street UK, sy'n cyfateb yn llawn i wasanaeth archeb sefydlog neu ddebyd uniongyrchol, gan ddileu i bob pwrpas yr angen i aelodau undeb credyd fod â chyfrif banc. Mae ROMCUL yn cyflogi 7 aelod o staff, mae ganddo 7 o wirfoddolwyr ac mae'n rhedeg 4 Pwynt Casglu ar draws ardal o fwy na 3,000 Km². Mae'n weithredol mewn ysgolion, â 531 o gynilwyr ifanc y mae tua hanner ohonynt wedi'u recriwtio o'r 11 ysgol gynradd a'r 1 ysgol uwchradd. Maent yn ymweld yn gyson ac yn rhoi cyflwyniadau yn yr ysgolion ac maent yn awyddus i wneud mwy o'r math hwn o weithgaredd yn y dyfodol. Mae ROMCUL yn cydnabod bod ei aelodau'n dal i fod o'r trefi marchnad yn yr ardal a bod angen datblygu ffyrdd newydd o weithio fydd yn caniatáu mynediad haws i'r rheiny sy'n byw mewn mannau diarffordd. Mae'n chwilio am atebion drwy dechnoleg gwybodaeth i gynorthwyo â'r gwaith.

3.4 Rheoli perfformiad

Mae'n bwysig bod gan yr undebau credyd fynediad i wybodaeth ddadansoddiadol ar eu perfformiad ariannol a gweithrediadol i helpu'r bwrdd a'r rheolwyr i wneud penderfyniadau o safbwynt y blaenoriaethau gweithredu o ddydd i ddydd a'r gwaith cynllunio strategol tymor-hir. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu Canolfan Cydweithredol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad a'r undebau credyd yng Nghymru i ddatblygu fframwaith 'Gwiriad Iechyd' yn ffordd o gynorthwyo gwaith rheoli strategol yr undebau credyd a'u dealltwriaeth o'u perfformiad ariannol a gweithrediadol yn sefydliadau aelodau-seiliedig effeithiol.

Dangosodd gwaith archwilio'r adroddiadau o'r fersiwn gynnar i'r fersiwn hon ganolbwyntio'n bennaf ar iechyd y sefydliadau o ran y llywodraethu, y cysylltiadau a'r gwirfoddoli, heb edrych ar faterion oedd yn gysylltiedig â iechyd ariannol yr undeb credyd. Cynlluniwyd fersiwn newydd y Gwiriad Iechyd ar gyfer ceisiadau SGEI 2007/08 ac mae'n cynnwys cwestiynau manwl ar hanes, datblygiad, llywodraethu, polisïau a gweithdrefnau, rheoli, personél, defnyddio TGCh, marchnata a chryfder ariannol. Mae'n cynnwys y 10 cymhareb PEARLS 'allweddol' hefyd, ond ni ddefnyddiwyd y Gwiriad Iechyd yn helaeth hyd yma ag nid oedd ond 8 undeb credyd yn cofio ei ddefnyddio.

Mae pob un o'r undebau credyd, ar wahân i 4, yn perthyn i ABCUL, sydd wedi'i drwyddedu gan WOCCU i ddarparu a gweinyddu PEARLS. Mae PEARLS yn cynnig fframwaith cyson a chydabyddedig ar gyfer asesu perfformiad yn feintiol. Erbyn hyn mae'n bosib i undebau credyd roi gwybodaeth ar-lein i ABCUL a derbyn dadansoddiadau ariannol rheolaidd (mae'r datblygiad hwn yn debyg i'r gwasanaeth a gynigir gan Undeb Credyd Central yng Nghanada a grybwyllwyd eisoes). O dderbyn

bod yr undebau credyd yn gofyn i'r gwaith cofnodi a'r gweithdrefnau cyfrifo gael eu symleiddio (er enghraifft, wrth gyflwyno ceisiadau am grantiau a darparu adroddiadau diwedd blwyddyn), nid oes angen i'r Gwiriad lechyd ddyblygu'r pethau y bydd dadansoddiad PEARLS wedi'u rhoi eisoes (ar wahân efallai ar gyfer y rhai sydd heb fod yn perthyn i ABCUL y gallai'r wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol iddynt).

Mae angen mwy o fesurau ansoddol hefyd i gael asesu'r gallu a'r perfformiad cyffredinol. Gall y rhain fod mewn perthynas ag amcanion strategol, arweinyddiaeth a rheoli gweithredol, er enghraifft: mesurau canlyniadau a cherrig milltir; cymhwyso gwerthoedd cydweithredol; adrodd cymdeithasol ac amgylcheddol; dadansoddi bylchau o ran sgiliau ac asesu anghenion hyfforddiant; strwythurau a phrosesau llywodraethu; a chynllunio dilyniant. Byddai hyn yn helpu i adnabod unrhyw angen i ymyrryd hefyd er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a meithrin gallu'r aelodau, y staff a'r cyfarwyddwyr.

Proffil Undeb Credyd: Undeb Credyd Casnewydd

Sefydlwyd Undeb Credyd Casnewydd yn 1999 o dan yr enw 'Newport North West Credit Union' ac roedd y cwlwm cyffredin yn cynnwys wardiau Bettws, Malpas, Rogerstone a Shaftesbury, a maes o law Bwrdeistref Sirol Casnewydd. Gydag ehangu'r cwlwm cyffredin, daeth newid ym mhatrwm yr aelodaeth a'r recriwtio: mae clystyrau o aelodau yn ardal wreiddiol yr undeb (yn enwedig yn Bettws) ac ar hyn o bryd mae'r undeb wrthi'n recriwtio ar draws Casnewydd. Mae Undeb Credyd Casnewydd yn gweithredu nawr o swyddfeydd yng nghanol y ddinas yng Nghasnewydd. Mae'n cyflogi 3 aelod o staff yn rhan-amser ac mae ganddo 24 o wirfoddolwyr. Bydd tua 150 o'r aelodau'n defnyddio gwasanaethau'r undeb credyd bob wythnos yn bersonol, tua hanner ohonynt yn ymweld â'r swyddfa a'r gweddill yn defnyddio un o'r 5 pwynt casglu mewn canolfannau cymunedol ac un yng nghartref aelod. Bydd 32 o weithwyr y Gwasanaeth Lechyd Gwladol yn cyfrannu drwy didyniadau cyflog a 3 drwy Grŵp Tai Seren. Mae Grŵp Tai Seren o ganlyniad i'r cysylltiad diweddar wedi cynnig eu hystafelloedd yn fannau cyfarfod ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd ac wedi cyflwyno didynnu cyflog ar gyfer staff Seren, y mae un ohonynt wedi ymuno â bwrdd yr undeb credyd, a'r gobaith yw y bydd y cysylltiad hwn yn ffordd ddefnyddiol o recriwtio'r tenantiaid yn aelodau. Mae 234 o gynilwyr ifanc gan yr undeb credyd y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymuno drwy aelodau hŷn eu teulu ac mae llawer ohonynt yn dod yn aelodau llawn yn oedolion. Ar un pryd, roedd pwynt casglu yn Ysgol Uwchradd Bettws ac mae un ar y gweill i ddechrau ym mis Medi eleni yn Ysgol Iau Bettws. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf derbyniodd yr undeb credyd £3,500 oddi wrth DRAMA yn 2007 wedi i Farepak chwalu; £13,842 yn 2008 o dan gynllun contract SGEI i dalu am Weinyddwr Cyfrifon; a £550 yn 2007 oddi wrth Grantiau'r Degwm i dalu am ddiweddarau'r system TG. Cyn hyn roedd wedi derbyn £106,000 rhwng 1999 a 2002 oddi wrth brosiect WEFO/ERDF, a £1,150 oddi wrth Gronfa'r Degwm yn 2005 i dalu am argraffu taflenni ac fel cyfraniad i'r cronfeydd. Yn y tymor byr, amcan yr undeb credyd yw codi nifer yr aelodau o fewn ei ardal bresennol a pharhau i reoli'r credyd a'r gwaith o adennill dyledion yn well.

3.5 Meithrin gallu'r undebau credyd

Am resymau cyfreithiol, ac er mwyn sicrhau bod ffydd gan ddarpar aelodau mewn undeb credyd, mae'n bwysig bod byrddau a rheolwyr pob undeb credyd yng Nghymru yn arfer 'diwydrwydd dyladwy' wrth gyflawni eu gwaith. Mae'n arbennig o bwysig eu bod yn gwneud hyn wrth wneud penderfyniadau ar faterion megis dechrau proses uno ag undeb credyd arall, cyflwyno cynnyrch neu wasanaeth newydd, neu gytuno ar gontract neu gyllid gyda thrydydd parti. Er bod ymrwymiad a symbyliad y cyflogeion a'r cyfarwyddwyr yn fawr, dangoswyd gan yr ymchwil nifer o enghreifftiau lle na chafodd y mathau hyn o benderfyniadau pwysig eu gwerthuso'n feirniadol ymlaen llaw ac na chafodd y risgiau tebygol eu hadnabod a'u rheoli'n effeithiol. Mae'n hanfodol gwella'r perfformiad yn y maes allweddol hwn os yw'r sector yn mynd i oroesi a thyfu yn y dyfodol a gellir ei sicrhau drwy gyfuniad o hyfforddiant gwell,

recriwtio unigolion newydd mwy strategol eu meddylfryd i ymgymryd â rolau allweddol, a thrwy ddefnyddio cyngor arbenigol ar faterion megis uno.

Mae a wnelo gwendid amlwg arall o ran gallu'r undebau credyd â'r meddalwedd i gynorthwyo'r gwaith o weinyddu'r undebau credyd. Ar hyn o bryd, nid oes un math o feddalwedd yn cael ei ddefnyddio gan bawb; efallai nad yw'r meddalwedd sy'n cael ei ddefnyddio yn ddigonol ar gyfer yr holl ofynion ac mae tuedd iddo fod yn ddrud, o gofio cyllidebau llawer o'r undebau credyd. Felly, nid yw'r undebau credyd yn defnyddio TG mor effeithiol ag y gallent er mwyn lleihau eu costau eraill a chasglu a dadansoddi gwybodaeth yn well.

Mae modelau ar gael mewn gwledydd eraill megis Canada sy'n dangos sut y gellir rhannu gwasanaethau gweinyddol cefn-swyddfa er mwyn darparu'r swyddogaethau hyn. Byddai angen astudiaeth dichonolrwydd fanwl arall i gael canfod a fyddai'n ymarferol neu'n ddymunol gwneud yr un peth yng Nghymru. Ond cydnabyddir erbyn hyn fod cydweithredu yn mynd i fod yn elfen allweddol yn natblygiad yr undebau credyd yn y dyfodol ac mae argoelion y bydd angen i lawer elfen o waith cefn-swyddfa undeb credyd gael ei threfnu ar sail Prydain gyfan yn hytrach nag ar sail un wlad er mwyn sicrhau darbodion maint. Cynigiwyd gan adolygiad diweddar yn yr Alban y dylid gwneud astudiaeth i ymchwilio i fanteisio sefydlu "gwasanaeth canolog ar gyfer undebau credyd". Byddai'r sefydliad trydedd haen hwn (cymharer â Banc Lloegr) yn cydlynu gwaith yr undebau credyd ac yn cynnig cymorth ac arbenigedd a gallai ddal rhywfaint o fuddsoddiad yn ganolog hefyd. Er na wyddys pa mor ymarferol byddai hyn eto, awgrymir gan yr adroddiad y gallai fod yn adnodd positif i'r undebau credyd wrth iddynt ehangu a dechrau ymgymryd o bosib â gweithgareddau a allai olygu mwy o risg yn ariannol. Yn ddiweddar dechreuodd ABCUL weithio ar brosiect fydd yn helpu ei aelodau i gydweithredu a dod â darbodion maint i weithrediadau undebau credyd. Bydd y symud hwn tuag at gydweithredu mwy yn helpu'r undebau credyd i godi eu safonau ac i wella eu hansawdd drwy fod yn gyson o ran y ffordd y byddant yn darparu gwasanaethau allweddol i'w haelodau³⁹.

³⁹ I gael rhagor o wybodaeth, gweler <http://www.abcul.coop/page/news.cfm#616>

Proffil Undeb Credyd: Undeb Credyd Bargoed ac Aberbargoed

Sefydlwyd Undeb Credyd Bargoed ac Aberbargoed yn 1991. Â chefnogaeth dwy eglwys leol a chymorth Canolfan Cydweithredol Cymru, cawsant eu cofrestru gan Gofrestrydd y Cymdeithasau Cyfeillgar yn 1992. Y 'Cwlwm Cyffredin' gwreiddiol oedd y bobl oedd yn byw ym mhentrefi Bargoed, Aberbargoed a Gilfach. Erbyn hyn mae wedi ehangu i 'Byw a Gweithio' yn yr ardal wreiddiol a phentref cyfagos Britania. Yn 1999, cawsant grant gan y Loteri i brynu eu 'siop' bresennol, a daeth arian cyfatebol 20% (£10,000) oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Ond yn ystod y broses ddyfarnu grantiau, ail-ddehonglodd y Loteri Genedlaethol ei pholisi a gofynnodd am gael y grant yn ôl. Penderfynodd Bwrdd y Cyfarwyddwyr y byddai'r gwaith yn parhau er gwaethaf hyn a defnyddiwyd arian wrth gefn i gwblhau'r gwaith ac, erbyn hyn, maen nhw'n berchen ar y safle eu hunain. Mae'r Undeb Credyd yn parhau i dyfu'n raddol ac yn gyson ac mae'n cael ei redeg yn bennaf gan 23 o wirfoddolwyr ynghyd ag un aelod o staff rhan-amser. Mae eu model busnes yn draddodiadol â'r benthyciadau'n gysylltiedig â'r cynilion a rhaid i'r aelodau fod yn cynilo am 13 wythnos cyn y cânt ddechrau benthycu. Ond maent yn cynnig cyfraddau llog is ar gyfer benthyciadau sicr i'r aelodau sy'n ad-dalwyr da. Mae ganddynt adran Cynilwyr Ifanc lewyrchus a bydd y recriwtio'n digwydd yn gyfan gwbl drwy'r rhieni neu'r fam-gu/tad-cu yn dod i'r siop. Nid oes ganddynt bwyntiau casglu mewn ysgol ac ond 3 phwynt casglu i oedolion. Mae'r pwyntiau casglu'n gymharol brysur â hyd at 30 yn eu defnyddio ym mhob sesiwn. Ychydig iawn o aelodau didyniadau cyflog sydd ganddynt ond dechreuwyd defnyddio 'PayPoint' ganddynt yn 2002, sy'n galluogi'r aelodau i dalu arian i mewn mewn mannau eraill yn yr ardal ac ar draws y DU. Eu her yn y dyfodol yw i barhau i ymdreiddio mwy i'r farchnad, sydd eisoes y fwyaf yng Nghymru o ran Cwlwm Cyffredin daearyddol ar 12.77%. Nid ydynt yn bwriadu uno ag undebau credyd eraill neu ehangu eu Cwlwm Cyffredin yn y dyfodol agos. Maent yn bwriadu seilio unrhyw dwf ar y trigolion lleol.

3.6 Gweithio mewn Partneriaeth

Drwy ei hymrwymiaadau yn *Cymru'n Un*⁴⁰, dangosodd Llywodraeth y Cynulliad yn glir ei bod yn credu bod rôl allweddol i'r undebau credyd yn y gwaith o gynnwys llythrennedd ariannol yng nghwricwla'r ysgolion. Mae rhanddeiliaid polisi yn hoff o'r elfen hon er bod rhai pobl yn drysu wrth iddynt geisio deall beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol, er enghraifft a fyddai rhaid i'r undebau credyd fod â gweithwyr ysgolion dynodedig ar eu staff.

Cafodd y polisi o fynd â'r undebau credyd i mewn i ysgolion effaith sylweddol ar weithgaredd yr undebau credyd a astudiwyd. Sefydliadau bychain yw'r rhain, sy'n dibynnu ar amser gwirfoddolwyr. Os bydd rhaid defnyddio rhan sylweddol o'r amser hwn i ymweld ag ysgolion - does dim gwahaniaeth pa mor bositif y gallai hynny fod i'r undeb credyd - gall effeithio mewn ffordd negyddol ar unrhyw waith arall. Rhaid holi hefyd faint y bydd yr undebau credyd ar eu hennill o weithio yn yr ysgolion gan fod y draul ar eu hamser o ran cynilion yr ifanc yn fawr ynghyd â'r draul ariannol i'w gweinyddu, er mai ychydig bach o arian y byddant yn ei gynilo. Mae prinder gwybodaeth hefyd i ddangos a yw'r undebau credyd yn llwyddo, neu beidio, i symud yr aelodau ifanc a gafodd eu recriwtio yn yr ysgolion i fod yn aelodau pan fyddant yn oedolion. Efallai bod modd codi nifer yr aelodau sydd o oed ysgol uwchradd drwy ddefnyddio cynllun newydd, a ddatblygwyd gan Ganolfan Gydweithredol Cymru ar y cyd â disgyblion yn Ysgol Dyffryn ac Undeb Credyd Castell Nedd Port Talbot. Mae'r adnodd dysgu ar-lein hwn, sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys cyflwyniad sylfaenol i esbonio beth yw undeb credyd, pam y gallai pobl ifanc fod am ymuno, a sut i fynd ati i redeg eu pwynt casglu eu hunain⁴¹.

Mae'r undebau credyd yn wynebu'r her hefyd o weithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid, y gallai rhai ohonynt fod yn cynnig gwasanaethau tebyg. Un partner

⁴⁰ Gweler <http://wales.gov.uk/about/strategy/?lang=en> i gael manylion

⁴¹ I gael rhagor o wybodaeth, gweler <http://www.walescoop.com/summer-2009/n/1/i/1171>

pwysig yw'r Swyddfa Bost a daeth yn amlwg yn ystod cyfweiliadau bod llunwyr polisi wrthi'n ddyfal yn sefydlu partneriaeth bositif rhwng y swyddfeydd post a'r undebau credyd y mae'r ddau ohonynt â rôl bwysig yn y gwaith o helpu i gynnal bywyd yn y gymuned.

Mae cymdeithasau tai hefyd yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â'r undebau credyd yn rhan o'u hymrwymiad i gefnogi eu tenantiaid ac i gynnig gwasanaeth i unigolion a theuluoedd bregus sydd wedi'u heithrio'n ariannol. Bydd Moneyline Cymru - Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol (CDFI) gafodd ei lansio pan oedd y prosiect ymchwil ar waith - yn datblygu nifer o bwyntiau mynediad ar y stryd fawr â'u nod yw darparu gwasanaethau benthyca i unigolion na fyddai'n gymwys i gael benthyciad oddi wrth undeb credyd ar hyn o bryd. O bersbectif cymdeithasau tai, gwelir y cynllun yn fan cychwyn ar gyfer symud eu tenantiaid a phobl eraill drwy gyfrwng y cyfleuster newydd hwn i mewn i'r undebau credyd a chael mynediad i wasanaethau bancio sy'n rhai mwy prif-ffrwd (megis y cyfrif banc sylfaenol). Er mwyn cael cynnig y gwasanaeth risg uchel hwn, mae CDFI wedi gwneud cais am arian o Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol a byddant yn codi cyfraddau llog uchel (yn uwch na'r gyfradd llog Twf Cynhwysiant Ariannol bresennol o 26.82% APR), â'r nod o fod yn hunangynhaliol o fewn 3 blynedd ac i aros yn gynaliadwy wedi'r cyfnod hwn⁴². Mae'r ymateb i'r prosiect gan yr undebau credyd yn amrywio: maen nhw'n cael eu cyfyngu gan gyfradd llog ar uchafrif a gan y ffaith mai ond hyn a hyn o incwm y gallant ei gynhyrchu drwy fenthyciadau risg uchel o'r fath, nid ydynt yn gallu darparu ar gyfer cymunedau incwm isel a benthycwyr risg uchel, heb gyllid o'r tu allan. Fodd bynnag, mae gan rai undebau credyd ran allweddol yn natblygiad CDFI a gwelant gyfleoedd i ddatblygu partneriaeth. O gofio cymaint yw'r angen yng Nghymru, gall y ddwy ochr fod ar eu hennill drwy gydweithio, ond er mwyn gwneud hyn bydd angen sefydlu protocolau clir ar gyfer gweithredu ac arfer.

3.7 Codi'r Proffil

Roedd cynrychiolydd pob undeb credyd a rhanddeiliaid allweddol eraill a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn cytuno bod proffil a 'brand' yn broblem. Nid yw'n hawdd adnabod undebau credyd – “cyfrinach fawr” oedd disgrifiad un lluniwr polisi – a hyd yn oed pan fyddant wedi bod yn rhan sicr o'r gwasanaethau ariannol am gyfnod hir, mae llawer o'r bobl leol heb ddeall eu rôl na'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

Daethpwyd i ddeall mewn cyfweiliadau â'r rhanddeiliaid allweddol bod llawer o'r rhai sy'n gweithio yn y meysydd polisi sy'n ymwneud ag eithrio ariannol ac adfywio heb glywed am undebau credyd cyn iddynt ddod ar eu traws drwy eu gwaith. A digwydd dod i wybod amdanynt yn unig wnaeth llawer o'r aelodau. Fodd bynnag, roedd ymdeimlad yn eu plith fod y wasgfa gredyd yn cynnig cyfle penodol i ymwneud â marchnata'r rôl arbennig a all fod gan yr undebau credyd: “Dyma'r amser iawn i gael siarad am y ffordd mae arian yn gweithio”. Neu, yng ngeiriau un rhanddeiliad allweddol arall, “Nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith mai'r sefydliadau ariannol cydfuddiannol yw'r rhai sydd wedi goroesi'n well... Mae neges bwysig yno.”

⁴² I gael rhagor o wybodaeth ar fenthycia risg uchel, gweler Kempson, E., Ellison, A., Whyley, C., a Jones. P (2009) *Is a not-for-profit home credit business feasible?* York: Joseph Rowntree Foundation, ar gael ar <http://www.jrf.org.uk/publications/not-for-profit-home-credit>

Er bod 'undeb credyd' yn 'frand' byd-eang, mae'r bobl sy'n gweithio i ac sy'n aelodau o undeb credyd yn dal i deimlo'n amheus ynglŷn â chryfder hunaniaeth bresennol y mudiad. Er enghraifft, gwnaeth un person y sylwad hwn:

Bob tro y byddwch yn defnyddio'r geiriau 'undeb credyd' rydych yn codi wal rhyngoch chi a'r person rydych yn siarad ag ef/hi. Naill ai nid yw 'credyd' yn air y maent yn hoff ohono neu dydyn nhw ddim yn hoffi'r gair 'undeb' neu dydyn nhw ddim yn hoffi'r ddau gyda'i gilydd. Ac felly mae'n rhoi wal ddeg troedfedd o'ch blaen y mae rhaid i chi ddringo drosti er mwyn esbonio pwy ydych chi. (Aelod Undeb Credyd)

Roedd y rhai fu'n rhan o'r grŵp ffocws sy'n gweithio i'r undebau credyd yn bositif ynglŷn â'r syniad o greu brand y gallai undebau credyd yng Nghymru ei rannu. Fel y dywedodd un ohonynt, "Byddai defnyddio'r un brand yn rhoi hyder i bobl" a byddai hynny'n rhoi hygredd i undebau credyd.

4. Casgliadau ac Argymhellion

Mae datblygiad mudiad yr undebau credyd yng Nghymru'n bur ddyledus i gefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y deng mlynedd a aeth heibio. Mae'r gefnogaeth hon yn rhan o ymrwymiad cyffredinol i agwedd gydfudiannol tuag at y bywyd economaidd yng Nghymru fel y dengys cyflwyno mentrau polisi sylweddol ac arwyddocaol i ddatblygu mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a'r trydydd sector o fewn cylch gwaith Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac ar draws Llywodraeth y Cynulliad I gyd.

Yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf gwelwyd llawer o'r undebau credyd yn cryfhau eu rheoli trefniadaethol a'u ffordd o fynd ati i gynnal eu busnes. Agorwyd safleoedd ganddynt a buont yn ymdrechu i foderneiddio eu cynhyrchion ariannol a'u gwasanaethau i gael ymateb yn fwy effeithiol i anghenion eu haelodau a defnyddwyr yn gyffredinol yn enwedig mewn cymunedau incwm isel. Dangoswyd gan yr astudiaeth ymchwil hon fod yr undebau credyd hynny sy'n dymuno gwneud hyn ar bwynt hollbwysig, h.y. ar groesffordd yn eu datblygiad lle y maent mewn sefyllfa lle y gallant gynyddu eu gweithrediadau a'u hymdrechion i gynnig allgymorth, a gwneud mwy o gyfraniad gyda'i gilydd i ddatblygiad gwasanaethau ariannol yn y cymunedau ar hyd a lled Cymru ond mae angen iddynt gael cymorth ac i ddatblygu er mwyn cymryd y naid hon. Mae rôl eto gan lywodraeth ar bob lefel (San Steffan, y Cynulliad a'r awdurdodau lleol) yn y gwaith o ddarparu cyllid, cyfalaf a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer costau staffio, costau eraill, hyfforddiant ac ymchwilio i a datblygu gwasanaethau, technoleg a chynhyrchion newydd (megis Cyfrif Cyfredol yr Undebau Credyd). Gallai hyn gynnwys cefnogi cynhyrchu gwaith di-incwm megis addysg ariannol (yn yr ysgolion hefyd).

Yn eu tro bydd angen i'r undebau credyd ganolbwyntio ar ddatblygu eu busnes, datblygu eu gwasanaethau â gweithdrefnau rheoli a llywodraethu sicr er mwyn codi safon yr arweinyddiaeth a'r gwaith cynllunio strategol i'w galluogi i symud i fod yn hunangynhaliol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cydbwysedd rhwng y nodau cymdeithasol ac economaidd a denu aelodau o gefndiroedd eang gwahanol yn economaidd. Er mwyn gwireddu potensial yr undebau credyd un o'r heriau mwyaf fydd cael hyd i aelodau ar gyfer eu byrddau a staff fydd â'r hyfedredd a'r sgiliau angenrheidiol.

Bydd angen bod y cyngor a'r datblygiad priodol oddi wrth gymdeithasau masnach ac asiantaethau datblygu yn adlewyrchu anghenion newydd yr undebau credyd yng Nghymru hefyd drwy fod ag ystod o wasanaethau, cyfleoedd hyfforddiant, cyfryngau a fframweithiau priodol fydd yn adeiladu cymwyseddau rheoli a chymwyseddau ariannol, cyfarwyddwyr, staff a gwirfoddolwyr undebau credyd er hyrwyddo'r gwaith o ymgysylltu'n weithredol ag aelodau a'u cael i gymryd rhan. Mae'n ABCUL a Chanolfan Gydweithredol Cymru yn darparu rhywfaint o'r math hwn o gymorth eisoes ac mae rhai mecanweithiau (megis dadansoddiadau Pearls a Gwiriad Iechyd CGC) eisoes yn eu lle a gellir datblygu'r rhain ymhellach. Yn ogystal gallai datblygu asiantaeth drydedd haen, megis Undeb Credyd Central (Canada) neu'r cynnig i sefydlu undeb credyd canolog (Yr Alban), ddarparu arbenigedd o ran datblygiadau

technegol a datblygiadau busnes y mae eu hangen yn fawr yn ogystal â bod â rôl ymyrrol a rôl archwilio gefnogol.

Un mater a godwyd nifer o weithiau oedd y baich gweinyddu ychwanegol i gael delio â ffrydiau cyllido a chytundebau lefel gwasanaeth/contractau anodd. Mae angen symleiddio'r prosesau ymgeisio a'r gweithdrefnau cyfrifo a'u gosod ar lefel sy'n briodol ar gyfer maint y grant a'r sefydliad. Fodd bynnag cydnabyddir hefyd fod cymorth a chanllawiau ar gael gan adrannau'r Llywodraeth ac asiantaethau datblygu i gefnogi'r prosesau hyn. Croesewir y ffaith bod y drafodaeth rhwng llywodraeth a'r undebau credyd yn parhau hefyd a chydabyddir bod y cyfarfodydd rhwydwaith a drefnir gan Lywodraeth y Cynulliad yn werthfawr.

Y mae'r diffyg ymddiriedaeth presennol gyda'r sector bancio sydd i'w ganfod yn eang wedi cynyddu'r diddordeb mewn sefydliadau ariannol cydweithredol a chydffuddiannol gan gynnwys yr undebau credyd. Bellach mae llunwyr polisi ac aelodau o fudiad yr undebau credyd yn credu i'r diffyg hwn helpu i greu naws sydd yn helpu proffil cenedlaethol yr undebau credyd a'r lefelau recriwtio. Er nad yw pob undeb credyd yng Nghymru yn yr un modd ag undebau credyd yn rhannau eraill o'r byd yn cynnig yr un gwasanaethau, eto i gyd mae ganddynt rai cynhyrchion yn gyffredin ac maent yn unfryd o ran eu diben a'u gweledigaeth. Mae angen datblygu'r undebau credyd yng Nghymru iddynt gael eu hystyried yn sefydliadau ariannol i bawb ac mae angen rhoi'r un faint o sylw hefyd i sicrhau bod cynhyrchion a gwasanaethu'r undebau credyd mor berthnasol a defnyddiol i weithwyr incwm canolig ac uchel ag y maent i grwpiau incwm isel a grwpiau sydd wedi'u cau allan yn ariannol. Mae'n bwysig hefyd fod undebau credyd yn cael eu hannog a'u cefnogi wrth iddynt geisio cyrraedd a denu pobl incwm uwch/uchel a'r rhai sy'n awyddus i gynilo na fyddai fel arfer yn ystyried ymuno ag undeb credyd yn yr ardaloedd lle maent yn byw neu'n gweithio. Dyma faes a fyddai'n elwa o fod â chymorth y Llywodraeth fyddai wedi'i dargedu a hynny wedi'i gysylltu â chodi nifer yr aelodau er mwyn sicrhau mwy o ymdreiddiad i'r farchnad mewn ardaloedd cwlwm cyffredin.

Mae rhai undebau credyd wrthi eisoes yn chwilio am gyfleoedd i weithio ar y cyd neu i ddefnyddio'r un gwasanaethau. Gallai stampiau cynilo Cymru-gyfan ar gyfer plant o oedran ysgol fod yn un o'r gwasanaethau hyn. Cyflawnir gwasanaethau a chynhyrchion eraill drwy ddarbodion maint (partneriaethau, rhwydweithio ac uno). Mae safoni cynhyrchion lle y bydd yn bosib gwneud hynny yn helpu i godi'r ymwybyddiaeth ynglŷn â'r gwasanaethau a gynigir gan yr undebau credyd.

Gallai uno fod yn rhan gynyddol o fudiad yr undebau credyd yng Nghymru. Mae'n bwysig na fydd aelodau na chymunedau lleol yn dechrau teimlo iddynt golli eu hundeb credyd pan fydd uno yn digwydd a bydd angen ystyried yn ofalus cyn gweld undebau credyd sydd o natur wahanol yn uno. Er mai'r undebau credyd unigol eu hunain fydd yn penderfynu a fyddant yn uno neu beidio, mae argoelion y gallai fod angen arbenigedd o'r tu allan i helpu undebau credyd arfer diwydrwydd dyladwy o ran edrych yn ofalus a chytuno ar unrhyw broses uno. Drwy wneud hyn byddent yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu llywodraethu sicr yn ogystal â rheoli a gweithredu effeithlon a disgyblaeth ariannol.

Yr argymhellion canlynol yw cefnogi datblygiad mudiad undebau credyd yng Nghymru sy'n gryf, yn sicr ac yn effeithiol ac sy'n ystyried y ffactorau cyffredin

cydnabyddedig sydd eu hangen er datblygu undebau credyd llwyddiannus o fewn mudiad byd-eang.

4.1 Argymhellion ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad

Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddehongli ei hymrwymadau *Cymru'n Un* i'r undebau credyd yn gyffredinol a sicrhau bod undebau credyd ar gael i bawb ym mhobman yn nhermau galluogi pob defnyddiwr yng Nghymru i fod â mynediad i gynhyrchion a gwasanaethau ariannol undebau credyd fydd o ansawdd, ni waeth ble y byddant yn byw neu'n gweithio. Dylai'r polisi sy'n sail i'r ymrwymadau hyn ganolbwyntio ar hybu'r manteision y bydd yr undebau credyd yn eu cynnig i bawb yng Nghymru, ar roi cefnogaeth iddynt i ymateb i'r her hon a chydabod mai'r unig ffordd y gallant wneud cyfraniad positif i gynwysoldeb ariannol ac undod cymdeithasol fydd drwy adeiladu ar y sail gadarn yma.

4.1.1 Er mwyn cefnogi twf undebau credyd dylai Llywodraeth y Cynulliad:

- i. Osod targed i fudiad yr undebau credyd ystyried 6% o boblogaeth Cymru yn ei aelodaeth erbyn 2020. (Mae'r nifer yn fwy eisoes mewn dau undeb credyd unigol ac ni fyddai angen ond dyblu'r maint cyfartalog yn achos clwstwr arall o bump);
- ii. Arwain o'r blaen drwy annog eu staff eu hun i ymuno ag undeb credyd drwy ei gynllun didyniadau cyflog presennol a, lle bo'n briodol, defnyddio eu hamser gwirfoddol i'w cefnogi;
- iii. Lansio ymgyrch broffil-uchel i sicrhau bod pob AS ac AC yn ogystal â chyfran sylweddol o gynghorwyr lleol yng Nghymru yn dod yn aelod o'u hundeb lleol erbyn diwedd 2010;
- iv. Dosbarthu canllawiau i bob cyflogwr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn eu hannog i sefydlu cyfleusterau didyniadau cyflog ar gyfer undebau credyd ac i hybu aelodaeth ymhlith eu staff. Gellid defnyddio deunyddiau cyhoeddusurwydd generig i gefnogi hyn wedi'u cynhyrchu gan Lywodraeth y Cynulliad mewn ymgynghoriad â'r undebau credyd;
- v. Ystyried cynnig grant didyniadau cyflog i gyflogwyr mwy o faint (200+ staff) sy'n ymrwymo i sefydlu cyfleusterau didyniadau cyflog undeb credyd;
- vi. Cefnogi undebau credyd i ddechrau defnyddio 'Cyfryf y Porth Cynilo' yn ffordd ddefnyddiol o adeiladu eu sail gyfalaf er mwyn annog rhannau incwm isel y boblogaeth i gynilo a chadw cronfeydd a gynhyrchir yn lleol o fewn yr economi leol.

4.1.2 Er mwyn cefnogi'r gwaith o hybu undebau credyd dylai Llywodraeth y Cynulliad:

- i. Weithio gyda'r undebau credyd i helpu i ddatblygu hunaniaeth undeb credyd i Gymru gyfan gan gynnwys lliw a logo adnabyddadwy ag ymgyrch i roi cyhoeddusurwydd ar draws Cymru;

- ii. Cyllido ymgyrch broffil-uchel fydd yn canolbwyntio ar bedair elfen fydd yn sicrhau llwyddiant undeb:
 - a. Eu telerau ariannol gwell (gan gynnwys y cyfraddau llog a buddion marwolaeth mewn aelodaeth);
 - b. Dibynadwyedd sefydliadau ariannol cydfuddiannol;
 - c. Eu bod yn fan diogel ar gyfer adneuon; a'r
 - d. Cysylltiad â chymunedau a chyflogwyr lleol;
- iii. Byddai angen defnyddio amryfal gyfryngau ond yn benodol argymhellir defnyddio hysbysebu cefn bysiau a chyhoeddiadau Llywodraeth y Cynulliad sydd ar gael eisoes a thargedu drwy'r post;
- iv. Ceisio gweithio gyda chymdeithasau masnach a sefydliadau isadeiledd megis Ffederasiwn Busnesau Bach er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfleoedd sydd ar gael i grwpiau yn y gymuned i fentrau micro a mentrau bach gael dod yn aelodau o undebau credyd;
- v. Archwilio'r posibilrwydd o gyllido hysbysebu generig ar y prif beiriannau chwilio ar y we fel y bydd chwiliadau fydd yn defnyddio geiriau allweddol megis 'undeb credyd' neu 'fenthyciad fforddiadwy' yn arwain i dudalen fydd yn cyfeirio'r chwiliwr i'w undeb credyd lleol;
- vi. Dylid cyllido partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf er mwyn sicrhau bod staff ar gael yn y fan a'r lle i hybu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r undebau credyd; dylent weithio mewn cydweithrediad â'r undebau credyd.

4.1.3. Er mwyn rhoi cymorth ariannol wedi'i dargedu, dylai Llywodraeth y Cynulliad:

- i. Barhau i ystyried cymorth ariannol i undebau credyd yn fuddsoddiad tymor hir a dylai sicrhau bod arian yn cael ei gyfeirio i weithredu cynlluniau cynaliadwy ;
- ii. Sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus mewn undebau credyd yn amodol ar gwrdd â meini prawf rheoli sy'n benodol, yn dryloyw ac yn gadarn;
- iii. Sicrhau bod cymorth ariannol yn amodol ar lwyddo i gyrraedd targedau ariannol a gweithredol sy'n canolbwyntio nid yn unig ar godi nifer yr aelodau ond hefyd ar dwf yn y cynilion, y benthyciadau a'r asedau dros amser ;
- iv. Sicrhau bod grantiau cyfalaf ar gael i wella cyfleusterau cefn swyddfa i brynu adeiladau, cyfrifiaduron a meddalwedd ac i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd;
- v. Rhoi'r ystyriaeth briodol i gefnogi a hwyluso gweithio gyda darparwyr cardiau debyd rhagdaledig ar y cyd yn hytrach na bod pob undeb credyd yn gwneud hynny ar wahân;
- vi. Blaenoriaethu cyllido a chymorth drwy ystyried awydd yr undebau credyd i godi nifer eu haelodau a chynnig ystod o wasanaethau y gallant ddangos (a)

bod eu haelodau yn gofyn amdanynt a (b) a fydd yn cynhyrchu digon o arian iddynt gael dod yn hunangynhaliol yn y tymor canolig;

- vii. Rhoi grantiau refeniw ar gyfer mentrau cefn-swyddfa cydweithredol megis y contractau SGEI presennol (noder: mae'n bosib y bydd rhaid datblygu mentrau cefn swyddfa ar y cyd ar sail Prydain gyfan o ystyried maint y mudiad ar draws Prydain;

4.1.4 Er mwyn cefnogi llywodraethu da a hybu'r arfer gorau dylai Llywodraeth y Cynulliad:

- i. Ystyried llwyddiannau a methiannau polisiâu cefnogi undebau credyd o bersbectif y profiad yn y DU a'r profiad yn rhyngwladol o fewn mudiad yr undebau credyd: mae'n bwysig os yw unrhyw fudiad undebau credyd yn mynd i ddatblygu bod ganddo enghreifftiau ymarferol o undebau credyd effeithiol sy'n gallu bod yn ysbrydoliaeth ac yn esiampl i eraill;
- ii. Mynnu gweld faint o hyfforddiant achrededig sydd ar gael ar gyfer undebau credyd ac archwilio sut y gellid addasu'r hyfforddiant hwn i gwrdd ag anghenion yr undebau credyd yng Nghymru;
- iii. Cefnogi darparu hyfforddiant lefel uchel ar gyfer cyfarwyddwyr a rheolwyr undebau credyd er mwyn iddynt arfer eu rolau yn effeithiol o ran arwain yn strategol a llywodraethu'n dda;
- iv. Cefnogi sefydlu gwasanaeth 'diwydrwydd dyladwy' annibynnol ar gyfer undebau credyd sy'n ystyried uno neu newid eu model gweithredu'n sylfaenol (megis cyflwyno Cyfrif Cyfredol yr Undebau Credyd). Byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig am ddim;
- v. Rhoi ar waith gyfres o gyfarfodydd cyswllt fyddai'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn gyda'r undebau credyd yng Nghymru i helpu i adeiladu ymdeimlad o un mudiad; dylai'r undebau credyd gael cyfrannu'n llawn i'r agenda;
- vi. Edrych ar y posibilrwydd, ar y cyd gyda sefydliadau masnach a chymorth yr undebau credyd, o greu swydd newydd eiriolwr a chynghorwr undebau credyd. Byddai'r cynghorwr arbenigol hwn ar gyfer yr undebau credyd yn canolbwyntio yn arbennig ar faterion fyddai'n ymwneud â deddfwriaeth, rheoleiddio a datblygu cenedlaethol. Gallai'r eiriolwr undebau credyd hwn fod wedi'i leoli yn un o'r undebau credyd mwy o faint;
- vii. Comisiynu rhagor o waith ymchwil i archwilio pa mor ddichonol fyddai undeb credyd canolog. Gallai cyfleoedd fod ar gael i ymgysylltu â gwaith ymchwil ar ddichonolrwydd yn yr Alban ac archwiliadau ABCUL.

4.1.5 Er mwyn cyrraedd marchnadoedd newydd dylai llywodraeth y Cynulliad:

- i. Comisiynu rhagor o waith ymchwil i ymchwilio i effaith gweithio gyda chymunedau anodd eu cyrraedd ac sydd wedi'u cau allan yn ariannol, gan gynnwys cymunedau

Cymraeg eu hiaith a chymunedau ffydd ac ethnig. Mae cysylltiad yma a'r potensial i ehangu'r math o aelod, ymdreiddiad i gwlwm cyffredin, cymunedau buddiannau, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ddatblygiad undebau credyd yn y dyfodol;

- ii. Ystyried pa mor ddichonol fyddai sefydlu seilwaith cydweithredol Cymru gyfan a allai gynnwys gwasanaethau cefn swyddfa ar y cyd a chontract unigol gyda swyddfa'r post yn ogystal â darparu ar gyfer mentrau marchnata ar y cyd a hwyluso cynlluniau megis cynllun stampiau cynilo ar gyfer ysgolion cynradd ar draws Cymru. Efallai bod modd cydweithredu gydag ABCUL hefyd;
- iii. Gweithio drwy gyfrwng cyfarfodydd cynrychiolwyr o'r undebau credyd fydd yn cwrdd bob chwe mis a gydag ABCUL i ddatblygu cytundeb fframwaith unigol gyda Swyddfa'r Post cyf.
- iv. Dylid dehongli targedau'r undebau credyd ar gyfer ysgolion a phobl ifanc mewn ffordd ddigon cyffredinol gan adeiladu ar y gwaith a gyllidir gan Lywodraeth y Cynulliad ac sydd eisoes ar waith yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru, a phan adolygir ymrwymadau Cymru'n Un dylid esbonio'n glir ei fod yn cyfeirio at bob person ifanc p'un ai y bydd y person hwnnw yn yr ysgol neu beidio
- v. O ran y cwricwlwm ffurfiol dylid ystyried yr undebau credyd yn elfen graidd yn y gwaith llythrennedd ariannol sy'n rhan o fathemateg ac addysg ABCh, ac yn rhan o agenda Dysgu Arloesi. Felly i'r perwyl hwn dylid hyfforddi a chynnig tâl i weithwyr yr undebau credyd sy'n ymgymryd â gwaith yn yr ystafell ddosbarth .

4.2 Argymhellion ar gyfer yr undebau credyd yng Nghymru

4.2.1 Bydd angen i'r undebau credyd:

- i. Flaenoriaethu eu gwaith cynllunio strategol er mwyn gosod eu sefydliad yn gystadleuol yn y farchnad. Pan fydd yr undebau credyd yn cyflogi rheolwyr proffesiynol dylai gweithredu'r cynllun strategol hwn fod yn rhan o'u cylch gwaith yn ogystal â goruchwyllo gweithrediadau o ddydd i ddydd;
- ii. Recriwtio a gwerthuso rheolwyr undebau credyd yn rheolaidd ar sail lefel sgiliau uchel o ran arweinyddiaeth, strategaeth, rheoli'r busnes a rheoli ariannol. Ond yn anaml iawn y bydd cyflogi rheolwyr sy'n weinyddwyr yn anad dim, yn sicrhau bod yr undebau credyd yn cyrraedd eu hamcanion strategol
- iii. Gwneud recriwtio aelodau medrus i'r byrddau a gwella sgiliau'r aelodau presennol drwy hyfforddiant pellach yn flaenoriaethau. Adnabuwyd gan yr astudiaeth hon y credir bod rhai aelodau o'r byrddau yn ddiffygiol o ran lefel eu sgiliau yn ogystal â diffyg darpariaeth hyfforddiant ar y lefelau priodol yn enwedig felly mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol a materion ariannol a chyfreithiol ;
- iv. Asesu'n ofalus y risgiau a'r cyfleodd o ganlyniad i'r diwygio deddfwriaethol a rheoleiddiol sydd ar y gweill yn enwedig o safbwynt ehangu ystod y gwasanaethau a natur eu haelodaeth (e.e. drwy ganiatáu i sefydliadau ddod yn aelod), ac ymestyn yr ardaloedd y byddant yn gweithredu y tu mewn iddynt;

- v. Rhoi sylw i'r ddyletswydd gyfreithiol i arfer 'diwydrwydd dyladwy' wrth ddod i benderfyniadau ar faterion pwysig megis uno. I'r perwyl hwn dylent fanteisio ar gyngor cyfreithiol ac ariannol arbenigol cyn pennu'r materion hyn yn derfynol a gwneud argymhellion i'w haelodau;
- vi. Bod yn ymwybodol o'r newidiadau tebygol sydd i ddod yn fuan o ran gofynion cyfalaf isaf. I ddechrau dylent geisio cyrraedd cymhareb gyfalaf asedau isaf o 3% cyn gynted ag sy'n bosibl;
- vii. Mynd i'r afael â'r angen i sicrhau bod mwy o adneuon eu haelodau allan ar fenthyg fel ffordd o gynhyrchu mwy o incwm ac o symud tuag at gynladwyedd ariannol. I'r perwyl hwn dylent fanteisio'n llawn ar y dewisiadau sydd ar gael nawr i godi cyfraddau llog amrywiol ar fenthyciadau a hynny'n seiliedig ar y risgiau a'r costau go iawn sydd ynghlwm wrth gynnig gwasanaeth i aelod penodol ;
- viii. Parhau i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i sefydlu Cyfrif y Porth Cynilo yn ffordd o godi nifer yr aelodau a'r lefel gynilo ymhlith pobl incwm isel a darparu ffynhonnell ariannol arall ar gyfer y gwaith o fenthyca;
- ix. Rhoi blaenoriaeth i gyflwyno cardiau talu electronig (megis Pay Point), cardiau debyd rhagdaledig a, lle bo'n briodol a bod yr adnoddau yn caniatáu, Cyfrif Cyfredol yr Undebau Credyd. Mae'n hanfodol gwneud hyn er mwyn cefnogi twf aelodaeth undebau credyd ac ehangu eu natur yn enwedig felly ymhlith pobl ifanc a phob sy'n byw mewn ardaloedd gwledig;
- x. Adolygu ar frys sut y gellir defnyddio'r amser gwerthfawr y mae gwirfoddolwyr yn ei roi yn y ffordd fwyaf effeithiol. Dangoswyd gan yr astudiaeth hon fod y rhan fwyaf o'r 754 o wirfoddolwyr yn yr undebau credyd yng Nghymru yn rhedeg y 210 pwynt casglu, yn gwasanaethu 16 aelod yr wythnos ar gyfartaledd. Mae'n bosib nad cynnal pwyntiau casglu am ychydig oriau bob wythnos a'r pwyntiau hynny ag ond ychydig iawn o aelodau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio amser y gwirfoddolwyr o'i chymharu â chefnogi'r gwaith yn yr ysgolion neu waith allgymorth arall;
- xi. Cefnogi ar y cyd y gwaith o ddatblygu hunaniaeth unedig ar gyfer undebau credyd Cymru, gan ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad, a'r hunaniaeth yn cynnwys lliw a logo adnabyddadwy, a chynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd ar draws Cymru. Dylai'r ymgyrch yma ganolbwyntio ar bedair elfen sy'n perthyn i undebau credyd llwyddiannus: telerau ariannol gwell, gan gynnwys cyfraddau llog, a buddiannau marwolaeth mewn aelodaeth; dibynadwyedd sefydliadau ariannol cydfuddiannol; lle diogel i gadw adneuon; a'r cysylltiad â'r gymuned leol a chyflogwyr.

4.3 Argymhellion ar gyfer sefydliadau masnach a chefnogi'r undebau credyd:

- i. Mae angen i sefydliadau masnach a chefnogi'r undebau credyd sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi achrededig ar y lefelau priodol ar gael a'u bod yn cael eu marchnata a'u hybu drwy Gymru. Mae datblygiad a nifer yr aelodau o'r byrddau,

y rheolwyr a'r staff gweithredol sy'n ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi lefel uchel yn flaenoriaeth bwysig;

- ii. Mae angen i'r Gwiriad lechyd a ddarperir ar hyn o bryd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru gael ei adolygu ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad a'r undebau credyd er mwyn cysylltu â gwaith adnabod anghenion hyfforddi, bylchau sgiliau, cynllunio dilyniant a materion llywodraethu yn ogystal â gofynion y cyllidwr ac anghenion atebolrwydd.

4.4 Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol Cymru:

- i. Lle na fyddant yn gwneud hynny ar hyn o bryd, dylai awdurdodau lleol Cymru gyflwyno cynlluniau didyniadau cyflog ac annog eu gweithwyr i ddod yn aelodau o undeb credyd;
- ii. Dylai awdurdodau lleol Cymru roi ystyriaeth i'r gefnogaeth y gallant ei rhoi i'r undebau credyd gan gynnwys annog staff i fod yn wirfoddolwyr ac yn aelodau o Fyrddau, helpu gyda gwaith marchnata a rhannu lleoliadau ar gyfer pwyntiau casglu;
- iii. Lle y ceir eiddo masnachol gwag y mae'r awdurdod lleol yn berchen arno, dylid ei gynnig i'r undebau credyd ar delerau ffafriol;
- iv. Lle y bydd yr awdurdod lleol yn ddarparwr tai cymdeithasol hefyd, dylai annog ei denantiaid i fod yn aelodau o undeb credyd lleol.

4.5 Argymhellion ar gyfer cymdeithasau tai a sefydliadau partner eraill:

- i. Dylai cymdeithasau tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill greu partneriaethau â'r undebau credyd lleol. Dylai hyn gynnwys ond ni ddylai fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - Annog y tenantiaid i gyd i ymuno ag undeb credyd;
 - Annog swyddogion tai a staff eraill i gyfrannu i'r gwaith o redeg yr undeb credyd fel aelodau, gwirfoddolwyr a chyfarwyddwyr;
 - Darparu cyfleuster fel bod yr aelodau'n gallu gwneud taliadau i'r undeb credyd drwy swyddfeydd tai a gyda'u taliadau rhent;
 - Lle bo hynny'n briodol, cynnig safleoedd a chyfleusterau swyddfa ar y cyd i'r undebau credyd;
- ii. Gellir cyflawni hyn drwy wneud cytundeb fframwaith rhwng pob cymdeithas tai a'r undeb(au) credyd perthnasol;
- iii. Dylai'r CDFI Cymreig newydd, sy'n cael ei gyllido gan gymdeithasau tai yn Ne Cymru, ymdrechu i weithio mewn partneriaeth â'r undebau credyd yn hytrach na dyblu neu gystadlu â'u gwasanaethau;
- iv. Lle bo'n briodol, gallai cymdeithasau tai fanteisio ar newidiadau yn y ddeddf i ddod i gytundeb fel eu bod yn delio ag un undeb credyd ar gyfer eu tenantiaid i gyd, cyhyd ag y bydd yr undeb credyd yn fodlon ehangu ei weithrediadau i gynnwys y tenantiaid hynny.